# Cynllun Coed a Choetir Trefol



2018 - 2033

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

## Rhagair

Yn Sir y Fflint, rydym yn ffodus o fod â nifer o barciau coediog fel Parc Gwepra, Bryn y Beili a Dyffryn Maesglas wedi’u lleoli o fewn pellter cerdded i’n cartrefi sy'n cynnig cyfle hawdd i wneud ymarfer corff, ailgysylltu â natur a myfyrio.

Mae coed a choetir trefol yn darparu nifer o wahanol fuddion. Yn fy marn i, mae strydoedd â choed ar eu hyd yn llawer iawn mwy pleserus na rhai heb goed.

Mae gwyddonwyr yn dweud bod cerdded trwy goedwig neu ddarn o dir coediog yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl ac iechyd corfforol. Un o’m hoff ffyrdd o hamddena yw cerdded fy nghŵn ar hyd rheilffordd segur ger fy nghartref sydd â choed wedi'u plannu arni er budd y gymuned. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi’u gweld yn tyfu’n dal ac yn ffynnu. Wrth i mi edrych ar eu dail yn cysgodi’r llwybr, rwy’n teimlo’n fwy hamddenol ac mae straen bywyd gwaith bob dydd yn diflannu.

Rwy’n croesawu’r Cynllun Coed a Choetir Trefol hwn gan ei fod yn ceisio sicrhau mwy o orchudd coed mewn trefi drwy weithio'n fwy doeth. Mae’r cynllun yn gynhwysfawr, gan gwmpasu partneriaethau, ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â budd-ddeiliaid, a chanfod ffynonellau cyllid i blannu coed; ar adeg pan mae adnoddau’r Cyngor yn gyfyngedig tu hwnt. Mae hefyd yn gwneud defnydd da o wybodaeth fanwl am orchudd coed mewn trefi a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru’n ddiweddar, sy'n brif bartner i’r cynllun.

Y cam cyntaf yn unig yw dod o hyd i safleoedd a phlannu coed. Er mwyn cael mwy o orchudd coed mewn trefi, mae angen sicrhau ein bod yn gofalu amdanynt a’u meithrin yn goed llawn-dwf godidog. I wneud hyn, mae’r cynllun hefyd yn canolbwyntio ar reoli coed yn gynaliadwy a chost effeithiol.

Yn anffodus, mae plâu a chlefydau coed yn dod yn fwy cyffredin ac mae mwy a mwy o bwysau i ddatblygu tir. Fodd bynnag, efallai mai un o’r peryglon mwyaf yw cymryd ein coed yn ganiataol a pheidio gweithredu i’w gwarchod. Rwy’n gobeithio, yn anad dim, y bydd y Cynllun Coed a Choetir Trefol yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn, oherwydd y bydd yn haws cyflawni ei nod os yw pawb yn gwerthfawrogi coed trefol yn fwy ac yn eu deall yn well.

Y Cynghorydd Carolyn Thomas
Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad
Mawrth 2018

# Crynodeb gweithredol

Mae'r Cynllun Coed a Choetir Trefol hwn yn gosod targed o fod â gorchudd coed dros 18% o dir trefol erbyn 2033, yn hytrach na 14.5% ar hyn o bryd (2013), y seithfed isaf yng Nghymru.

Mewn cyfnod pan mae cyfrifoldeb dros ofalu am yr amgylchedd wedi'i ddeddfu gan Lywodraeth Cymru a phryderon cynyddol ynglŷn â'r effaith mae dyn yn ei gael ar yr amgylchedd, mae'r cynllun yn amserol iawn.

Mae coed yn symbol o'r byd naturiol oherwydd y rhan allweddol sydd ganddynt wrth leihau effeithiau newid hinsawdd, creu cynefinoedd a chreu mwy o fioamrywiaeth.

O safbwynt dynol, y farn gyffredin yw bod coed yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl a chorfforol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

Mae dadleuon economaidd cryfion dros blannu coed oherwydd y nifer o wahanol fuddion maen nhw’n eu cynnig.

Mae’r cynllun yn defnyddio canfyddiadau ymchwil diweddar i goed mewn trefi a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae’r ymchwil wedi darparu gwybodaeth sylfaenol werthfawr i’r Cyngor ynglŷn â natur a gwasgariad coed trefol ar draws tir sy’n cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd ac, yn allweddol, ble mae coed yn brin a ble gellid gwella hynny.

Mae llawer o dir yn eiddo i’r Cyngor ac wrth i'n trefi dyfu a phrysuro, mae angen sicrhau bod tir heb ei ddatblygu sydd yng ngofal y Cyngor yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i ddarparu mannau i bobl eu mwynhau ac amwynder cyhoeddus ehangach.

Fel Awdurdod Cynllunio Lleol, mae’r Cyngor yn gyfrifol am reoli datblygiadau gan sicrhau, lle mae gwaith datblygu, ei fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd o'i gwmpas ac yn diogelu nodweddion amgylcheddol, fel coed. Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol hefyd yn gweithredu mwy a mwy i annog isadeiledd gwyrdd wrth gydnabod buddion ehangach cynlluniau i blannu coed, llwyni a gwrychoedd, a elwir weithiau'n ‘dirlunio meddal’.

Ceir gweledigaeth a phum amcan ynghyd â tharged y cynllun, a’r prif amcan yw plannu mwy o goed. Ni wnaiff yr amcan hwn ar ei ben ei hun gyrraedd y targed o 18% os nad yw’r coed sydd yma eisoes yn cael eu gwarchod yn ddigonol felly mae'r ail amcan yn egluro sut y bydd y Cyngor yn rheoli'r coed presennol yn gynaliadwy.

# Cynnwys

Rhagair ..... 2

Crynodeb gweithredol ..... 3

Cynnwys ..... 4

1.0 | Pam mae angen cynllun coed a choetir trefol? ..... 6

2.0 | Ased naturiol anhepgor allweddol? ..... 8

3.0 | Trosolwg o goed a choetir trefol Sir y Fflint ..... 11

3.1. | Gorchudd coed yn ôl Categori Defnyddio Tir ..... 12

3.2. | Gorchudd coed ac amddifadedd ..... 14

4.0 | Y weledigaeth, y targed a'r amcanion ..... 15

5.0 | Amcan 1 – Cynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu ..... 17

5.1. | Cyrraedd y targed gorchudd coed ..... 17

5.2. | Mannau agored ffurfiol ..... 19

5.3. | Mannau agored anffurfiol ..... 19

5.4. | Coridorau cludiant ..... 20

5.5. | Addysg ..... 21

5.6. | Mynwentydd ..... 22

5.7. | Coetir ..... 22

5.8. | Ardaloedd masnachol ..... 22

5.9. | Tir arall ..... 23

5.10. | Cynllunio, plannu coed a gofalu amdanynt ..... 23

5.11. | Ardal beilot Cei Connah ..... 24

5.12. | Ardaloedd targed Brychdyn a Saltney ..... 24

6.0 | Amcan 2 – Rheoli coed yn gynaliadwy ..... 25

6.1. | Rheoli coetiroedd ..... 26

6.2. | Blaenoriaethu archwiliadau coed ..... 27

6.3. | Canghennau'n hongian uwch ben ..... 28

6.4. | Gwreiddiau coed ..... 29

6.5. | Llinellau cyfleustodau uwch ben ..... 30

6.6. | Gwaith diawdurdod ar goed ar dir y Cyngor ..... 30

6.7. | Polisi cynllunio ..... 30

6.8. | Gorchmynion Diogelu Coed ac ardaloedd cadwraeth ..... 31

6.9. | Amodau cynllunio .... 33
6.10. | Tirlunio .... 33
6.11. | Trwyddedau torri coed .... 34
6.12. | Gwrychoedd uchel .... 34
6.13. | Rheoliadau gwrychoedd .... 35
6.14. | Monitro iechyd coed .... 35
6.15. | Bioddiogelwch .... 35
**7.0 | Amcan 3 - Rheoli'r risgiau sydd ynghlwm â choed .... 36**
7.1. | Priffyrdd .... 37
7.2. | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 .... 37
**8.0 | Amcan 4 - Hyrwyddo bioamrywiaeth .... 39**
8.1. | Coed hen a hynafol .... 40
**9.0 | Amcan 5 - Gweithio mewn partneriaeth .... 42**
**10.0 | Adnoddau a chyflawni .... 44**
Atodiad 1 – Amserlen gyflawni .... 45
Atodiad 2 - Ffactorau sy'n effeithio ar orchudd coed mewn trefi .... 47
Atodiad 3 - Bygythiadau plâu a chlefydau .... 48
Atodiad 4 - Protocol gorfodi cynllunio ar gyfer coed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed neu gyfyngiadau ardal gadwraeth .... 50

# 1.0 | Pam mae angen cynllun coed a choetir trefol?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[1] yn cynnwys nodau lles y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, weithio i'w cyflawni. Un o'r saith nod lles yw cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecolegol.

Yn fwy diweddar, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[2] wedi rhoi deddfwriaeth mewn grym sy'n angenrheidiol i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy ac unol.

Mae plannu coed trefol a'u rheoli'n gynaliadwy'n amlwg yn bodloni prif nod y Deddfau hyn a Llywodraeth Cymru o ofalu am yr amgylchedd. Mae'r Cynllun Coed a Choetir Trefol yn darparu dull o reoli coed a choetir yn fwy cynaliadwy i gyflawni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor.

Mae'r cynllun yn ystyried y cyfleoedd sydd i blannu coed a sut i wneud hynny ac mae'n darparu'r dull gorau o reoli coed presennol.

Mae'r cynllun yn amlwg yn cyd-fynd â nod lles Llywodraeth Cymru o Gymru gydnerth a;

> *'Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid.'*

Mae'r Deddfau hyn yn llywio polisïau, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor. Un o'r pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer Cynllun Cyngor Sir y Fflint (2017-23)[3] yw bod yn Gyngor Gwyrdd sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a hyrwyddo mynediad i fannau gwyrdd.

Rhaid peidio â chymryd coed trefol a'u buddion yn ganiataol. Mae newid hinsawdd, plâu ac chlefydau newydd, gwaith datblygu a diffyg gwerthfawrogiad ohonynt yn bygwth tanseilio coed fel y brif nodwedd werdd mewn trefi.

Mae'r cynllun hwn yn nodi dull integredig o blannu coed ar bob math o dir sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn cydnabod y dylid ymgysylltu â chymunedau sy'n defnyddio tir cyhoeddus yn rhan o'r broses benderfynu ac y dylent gael cyfle i gymryd rhan yn y gwaith plannu.

Drwy bolisïau cynllunio a gweithio mewn partneriaeth, gall y Cyngor hyrwyddo plannu coed ar dir nad yw'n eiddo iddo a gwarchod coed fel na ellir cael gwared â nhw, lle bo modd.

Bydd y cynllun yn para 15 mlynedd. Mae'r cyfnod hwn yn eithaf byr yn oes coeden ond yn gyfnod eithaf hir o ran pa mor sydyn mae trefi Sir y Fflint yn newid a pholisïau sy'n cefnogi amgylchedd cynaliadwy'n datblygu. Defnyddir yr un cyfnod ar gyfer y cynllun â'r hyn a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint ac mae'n ddigon hir i goed ymsefydlu, fel bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod.

Mae gwybodaeth fanwl ynglŷn â gwasgariad gorchudd coed trefol yn ardaloedd trefol Sir y Fflint wedi'i chyhoeddi mewn astudiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru[4]. Mae'r astudiaeth yn

[1] LlEM, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[2] LlEM, 2016. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

[3] Cynllun Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir y Fflint. Heb ei gyhoeddi

[4] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2013. Gorchudd Coed yn Sir y Fflint

adnodd gwerthfawr i ddeall faint o goed sydd ar hyn o bryd a’r cyfleoedd i gynyddu’r nifer. Mae’r adroddiad yn tanategu’r cynllun a dyma’r cam cyntaf i reoli coed yn strategol ac yn gynaliadwy yn Sir y Fflint.

Mae coed a choetir yn rhan annatod o isadeiledd gwyrdd. Dyma ymadrodd sy’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio mannau gwyrdd a glas naturiol a lled-naturiol mewn ardaloedd trefol sy’n cynnwys parciau, gerddi preifat, caeau, gwrychoedd, coed a choetir, heb ystyried eu perchennog, eu cyflwr na'u maint[5]. Mae isadeiledd gwyrdd yn creu tirlun naturiol, deniadol sydd ag amryw o fuddion yn debyg i goed. Mae'r buddion ar eu gorau pan mae isadeiledd gwyrdd yn gysylltiedig ar draws gwahanol ddefnydd o dir trefol.

Mae’r cynllun wedi’i dargedu at goed a choetir mewn ardaloedd trefol sy’n darparu’r buddion mwyaf a lle mae 80% o bobl yn byw yng Nghymru.

[5] Cyfoeth Naturiol Cymru. Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol: Asesiad o Reolaeth Gynaliadwy o’n Hadnoddau Naturiol. Byrfoddau a Geirfa. Ar gael ar: https://naturalresources.waleshttps//cdn.naturalresources.wales/media/679406/annex-acronyms-abbreviations-glossary-final-for-publication.pdf [Defnyddiwyd 26 Hydref 2017]

## 2.0 | Ased naturiol anhepgor allweddol?

Mae'r buddion mae coed yn eu darparu i bobl a'r amgylchedd yn amrywiol ac yn niferus[6]. Yn ogystal â chymedroli tymheredd yr aer, lleihau llifogydd, llyncu carbon deuocsid a gwella ansawdd yr aer, mae coed yn cael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd meddwl a chorfforol (Ffigwr 1).

Canfu astudiaeth ym Manceinion[7] y bydd effaith newid hinsawdd fwyaf amlwg mewn ardaloedd trefol ac y bydd isadeiledd gwyrdd, fel coed, yn allweddol i leihau effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd. Yn benodol, mae'r astudiaeth yn nodi y bydd coed llawn-dwf yn bwysig iawn gan eu bod yn rhoi cysgod ac yn dal glaw.

Mae papur trafod[8] gan Goed Cadw yn dyfynnu sawl darn o ymchwil i effeithiau coed wrth wella ansawdd aer mewn trefi. Amcangyfrifir bod ansawdd aer gwael yn lleihau disgwyliad oes ym Mhrydain 7 i 8 mis a'i fod yn costio oddeutu £9-19 biliwn y flwyddyn.

[6] Trees and Design Action Group, 2010. *No Trees, No Future*

[7] Gill, S.E. et.al, 2007. *Adapting Cities for Climate Change: The Role of the Green Infrastructure. Built Environment Volume 33. No.1*

[8] Coed Cadw, 2012. *Discussion Paper: Urban air quality*



Ffigwr 1. Mae coed yn asedau naturiol grymus ac amlbwrpas (CNC)

Mae’r ardaloedd sy’n cael eu heffeithio waethaf wedi’u lleoli ar hyd priffyrdd ac ardaloedd â diffyg isadeiledd gwyrdd. Mae’r dystiolaeth yn awgrymu bod coed trefol yn cael gwared â llawer o lygredd o’r aer a bod llai o blant yn dioddef o asthma lle mae coed ar y stryd.

Mae coed yn rhoi amwynder drwy feddalu llinellau pendant yr amgylchedd adeiledig, yn dangos newid yn y tymhorau, gyda blodau, ffrwythau a lliwiau'r hydref, a threigl amser wrth iddynt dyfu. Mae coed yn creu naws am le ac maent yn ecosystem fioamrywiol, gyfoethog sy'n cynnal anifeiliaid, ffyngau, cen a rhywogaethau planhigion eraill.

Maent yn hyrwyddo gwell iechyd meddwl a chorfforol ac maent yn rhan o 'wasanaeth iechyd natur'. Mae dogfen friffio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr[9] yn dyfynnu ymchwil i ddarparu mannau gwyrdd ac effeithiau cadarnhaol hyn ar annog mwy o ymarfer corff, lleihau straen, ymddygiad gwrthgymdeithasol a hyd yn oed lefelau troseddu.

[9] Forest Research. 2005. *Trees and woodlands, Nature’s health service*. LlEM

Mae ymchwil diweddar wedi mesur y gwahanol fanteision mae coed yn eu darparu. Canfu astudiaeth bod yr 8.4 miliwn o goed sydd yn Llundain yn darparu gwerth £132.7 miliwn o fuddion[10], sy'n llawer mwy na'u cynnal a'u cadw a chostau eraill. Amcangyfrifodd astudiaeth yn Wrecsam bod coed y dref yn darparu gwerth £1.44 miliwn o fuddion i'r ecosystem bob blwyddyn[11]. Yn ariannol, mae'r manteision yn aruthrol.

---

[10] Treeconomics, 2015. *Valuing London's Urban Forest*

[11] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. Coed Trefol Wrecsam – adnodd anhygoel o fudd i ni oll

# 3.0 | Trosolwg o goed a choetir trefol Sir y Fflint

Roedd astudiaeth o 2016[12] a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru y edrych ar orchudd coed yn nhrefi a dinasoedd Cymru. Mae gorchudd coed mewn trefi'n cael ei gyfrif fel faint o dir mewn trefi sydd dan orchudd coed neu goetir a gwasgariad y tir hwnnw wrth ei asesu gan ddefnyddio ffotograffau o'r awyr. Yr astudiaeth oedd yr arolwg cenedlaethol cyntaf o'i fath yn y byd a bu iddo ganfod bod cyfartaledd o 16.3% o orchudd coed yng Nghymru yn 2013, a oedd yn is na 17% mewn arolwg blaenorol yn 2009.



Llun 1. Llun o'r awyr o'r Wyddgrug yn 2009

Canfu'r astudiaeth mai 14.5% o dir trefol oedd dan goed yn Sir y Fflint yn 2013 – y seithfed isaf yng Nghymru. Er gwaethaf y ffigwr isel hwn, roedd Sir y Fflint yn un o ddwy sir yn unig lle cynyddodd gorchudd coed rhwng 2009 a 2013. Mae coed dros 15.7% o Gei Connah, y fwyaf o'r 14 ardal drefol a arolygwyd yn Sir y Fflint a'r ddegfed fwyaf yng Nghymru. Mae hyn ychydig yn fwy na faint o goed sydd yn ardaloedd trefol eraill y sir ond mae'n dal yn llai na chyfartaledd Cymru.

Yng Nghaergwrle mae'r mwyaf o orchudd coed yn y sir (29.7%) a hynny, mae'n debyg, oherwydd y llethrau coediog o amgylch y castell a'r coetir sydd ar hyd Afon Alun sy'n hollti'r pentref.

O gymharu, Brychdyn (5.3%) a Saltney (5.5%) sydd â'r lleiaf o goed drostynt yn y sir. Nid oes unrhyw reswm penodol amlwg pam mai'r ddau le hwn sydd â'r lleiaf o orchudd coed.

Er gwaeth y coed ar Fryn y Beili, mae ychydig llai o orchudd coed yn yr Wyddgrug na chyfartaledd Cymru (15.3%), yn debyg i'r Fflint (14.2%). Efallai bod y ganran ychydig yn is yn y ddwy dref oherwydd eu gorffennol fel trefi marchnad cywasgedig.

---

[12] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016. Gorchudd Coed yn Nhrefi a Dinasoedd Cymru

Yn genedlaethol, mae Caerdydd o dan y cyfartaledd o orchudd coed (11%) ac mae trefi sydd ag ychydig iawn o goed drostynt yn cynnwys y Rhyl (6%) a Chaergybi (7%). Ymysg y trefi yng Nghymru sydd â thipyn o goed drostynt mae Treharris (30%) ac Abertyleri (27%).

Mae'r fethodoleg sylfaenol a ddefnyddir i asesu gorchudd coed mewn trefi'n galluogi cymharu â threfi a dinasoedd ar draws y byd.

Roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar goed o fewn ardaloedd trefol a byffer main o'u hamgylch. Er hynny, dylid cydnabod hefyd fod coed ar gyrion trefi hefyd yn bwysig gan eu bod yn agos at drefi a gellid eu hystyried yn bwysicach pan mae nifer y coed mewn ardal drefol yn benodol isel. Mae cyfraniad coed ar gyrion trefi at ardaloedd trefol yn haeddu cael ei gynnwys mewn astudiaethau pellach.

| Safle o ran maint yr ardal yn genedlaethol | Ardal Drefol | Parth Cymeriad y Tirlun | Poblogaeth Cyfrifiad 2011 SYG (Swyddfa Ystadegau Gwladol) | Ardal Drefol (hectar) | Cyfans wm y Gorchudd yn 2013 (hectar) | Cyfans wm y Gorchudd yn 2013 (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 10 | Cei Connah | Arfordirol | 33,549 | 1582 | 249 | 15.7% |
| 28 | Treffynnon/Bagillt | Arfordirol | 9,808 | 621 | 118 | 19.0% |
| 30 | Bwcle | Gogledd-ddwyrain | 19,639 | 605 | 75 | 12.4% |
| 36 | Brychdyn | Gogledd-ddwyrain | 5,974 | 533 | 28 | 5.3% |
| 50 | Yr Wyddgrug | Gogledd-ddwyrain | 10,058 | 398 | 61 | 15.3% |
| 51 | Y Fflint | Arfordirol | 14,907 | 394 | 56 | 14.2% |
| 85 | Caergwrle | Gogledd-ddwyrain | 4,284 | 239 | 71 | 29.7% |
| 100 | Saltney | Gogledd-ddwyrain | 4,769 | 163 | 9 | 5.5% |
| 170 | Penyffordd | Gogledd-ddwyrain | 3,554 | 84 | 10 | 11.9% |
| 197 | Coed-llai | Gogledd-ddwyrain | 2,282 | 58 | 6 | 10.3% |
| 199 | Mostyn | Arfordirol | 1,606 | 55 | 4 | 7.3% |
| 208 | Sychdyn | Gogledd-ddwyrain | 1,710 | 46 | 5 | 10.9% |
| 212 | Gwernymynydd/ Cadole | Gogledd-ddwyrain | 1,141 | 41 | 8 | 19.5% |
| 219 | Gwernaffield | Gogledd-ddwyrain | 905 | 21 | 2 | 9.5% |

Tabl 1. Cymariaethau gorchudd coed yn nhrefi Sir y Fflint (Cyfoeth Naturiol Cymru)

## 3.1. | Gorchudd coed yn ôl Categori Defnyddio Tir

Roedd yr astudiaeth yn edrych ar wasgariad coed trefol dros 14 o Gategorïau Defnyddio Tir yng Nghymru. Categori Defnyddio Tir Coetir, sy'n cynnwys y coetir ym Mharc Gwepra a Dyffryn Maes-glas, yw'r uchaf gyda 100% o orchudd coed. Nid yw'n syndod mai'r defnydd sydd â'r ail ganran uchaf o orchudd coed yw mannau agored anffurfiol, sef 46.6%. Enghraifft o fan agored anffurfiol yn y sir yw'r cynefin sydd ger glannau Afon Nant-y-Fflint.

Mae 22% o orchudd coed dros fannau agored ffurfiol sy'n cynnwys nifer o barciau Sir y Fflint, fel rhan ogleddol Parc Gwepra, y Comin Uchaf ym Mwcle a Pharc y Fron, Treffynnon. Eithaf ychydig o orchudd coed sydd ar goridorau cludiant ac ar safleoedd addysg, ar 10.1% a 9.7%.

| Categori Defnyddio Tir trefol | Cyfanswm y defnydd tir mewn hectarau | Gorchudd coed mewn hectarau | Gorchudd coed ym mhob Categori Defnyddio Tir |
|---|---|---|---|
| Ardaloedd masnachol | 739.97 | 77.65 | 10.4% |
| Addysg | 189.29 | 18.30 | 9.7% |
| Ysbytai | 10.38 | 2.04 | 19.7% |
| Mynwentydd | 26.96 | 3.58 | 13.3% |
| Gweddill cefn gwlad | 193.73 | 19.14 | 9.9% |
| Mannau agored ffurfiol | 371.26 | 81.43 | 22.0% |
| Mannau agored anffurfiol | 325.20 | 151.58 | 46.6% |
| Coetir | 84.66 | 84.66 | 100% |
| Ardaloedd preswyl dwys | 114.72 | 3.62 | 3.0% |
| Ardaloedd preswyl gwasgaredig | 1683.52 | 168.86 | 10.0% |
| Coridorau cludiant | 689.79 | 69.74 | 10.1% |
| Tir di-ddosbarth | 413.10 | 20.28 | 4.9% |
| Cyfanswm | 4824.59 | 700.89 | |

Tabl 2. Categorïau defnyddio tir a chymariaethau gorchudd coed ar gyfer Sir y Fflint (Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru)

O'r Categorïau Defnyddio Tir, mae'n amlwg bod gan y Cyngor ran fawr wrth reoli gorchudd coed mewn ardaloedd trefol. Yn y Categorïau Defnyddio Tir glas yn Nhabl 2, y Cyngor fydd bron yn gwbl gyfrifol am reoli'r tir a'r coed sydd arno. Wrth eu cyfuno, mae'r tri Chategori Defnyddio Tir yn cyfrif am bron i 35% o'r holl dir trefol a 60% o gyfanswm gorchudd coed trefol.

O fewn ardaloedd trefol a lled-drefol mae 85 hectar o goetir a'r coed hynny'n rhai llydanddail yn bennaf. Mae hyn yn cynrychioli cyfran gymharol fechan o'r 2,750 hectar o goetir llydanddail (ynn, sycamorwydd, bedw a derw, yn bennaf) sy'n tyfu ar draws Sir y Fflint gyfan ond mae'n benodol bwysig oherwydd ei fod mor hygyrch i'r cyhoedd a'r manteision amgylcheddol ychwanegol mae coetir trefol yn ei ddarparu. Mae Categori Defnyddio Tir 'coetir' yn darparu 12.1% o orchudd coed trefol.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint sy'n gyfrifol am reoli llawer o'r gorchudd coed trefol, gan gynnwys y safleoedd hyn:

- Gathering Ground
- Coed Gwepra
- Coed Broadoak
- Llwyni
- Carmel
- Pen-y-maes
- Maes-glas
- Castell Caergwrle
- Etna
- Coetir Cymunedol Bwcle
- Coed Talon

Y Cyngor yw'r prif berchennog tir yn y Categori Defnyddio Tir ‘addysg’ ac mae hefyd yn rheoli cyfran o dir dan Gategorïau Defnyddio Tir eraill. Mae gan Gyngor Sir y Fflint 7,000 o adeiladau preswyl, a fydd yn cael eu categoreiddio fel ardaloedd preswyl dwys neu ardaloedd preswyl gwasgaredig yn yr astudiaeth a sawl parc busnes, a fydd yn cael eu categoreiddio fel ardaloedd masnachol.

Os nad y Cyngor sy’n uniongyrchol gyfrifol am y tir, gall annog perchnogion tir eraill i gynyddu faint o goed sydd dros eu tir, yn enwedig drwy ei bwerau cynllunio statudol a gweithio mewn partneriaeth.

### 3.2. | Gorchudd coed ac amddifadedd

Mae Llywodraeth Cymru’n defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i weld pa ardaloedd yw’r mwyaf difreintiedig. Mae pob ward yng Nghymru’n cael safle o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1896 (lleiaf difreintiedig). Canfu astudiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru bod 40% o’r wardiau mwyaf difreintiedig (1-570) â llai na 10% o orchudd coed. Yn Sir y Fflint, nid yw'r cydberthyniad mor gryf gan mai pump o'r wardiau sydd â’r lleiaf o orchudd coed sydd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

## 4.0 | Y weledigaeth, y targed a'r amcanion

Gweledigaeth y cynllun;

*'Bod â gorchudd amrywiol a gwydn o goed yn holl drefi Sir y Fflint sy'n cael ei werthfawrogi a'i reoli'n gynaliadwy, sy'n darparu sawl budd i bobl a'r amgylchedd ac sy'n gwella bioamrywiaeth.'*

I ategu'r weledigaeth gyffredinol hon, mae'r cynllun yn nodi'r targed a'r amcanion canlynol.

*Targed y cynllun – cynyddu gorchudd coed mewn trefi i 18% erbyn 2033.*

Targed y cynllun yw cynyddu gorchudd coed mewn trefi o 14.5% i 18% neu fwy, erbyn 2033. Mae'r targed hwn yn hollgwmpasog ac mae'n ystyried y ffactorau niferus ac amrywiol a fydd yn pennu gorchudd coed (Atodiad 2) ac mae'n ei gofnodi fel canran o dir yr ardal drefol.

Bydd ffactorau sy'n dylanwadu ar orchudd coed yn cynnwys torri coed i lawr, yn enwedig colli coed llawn-dwf sydd â chanopi mawr, plannu coed newydd ac aildyfiant naturiol. Ynghyd â phlannu coed newydd, mae gofalu amdanynt wedyn yn bwysig i sicrhau bod nifer dda'n goroesi ac yn tyfu i fod â chanopi eang. Mae'r targed hefyd yn ystyried polisïau cynllunio ac eraill sy'n effeithio ar orchudd coed ar dir nad yw'n cael ei reoli'n uniongyrchol gan y Cyngor.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes wedi cynnal dau arolwg o goed yn Sir y Fflint a fydd yn cael eu defnyddio fel meincnodau. Bydd mabwysiadu methodoleg sylfaenol hefyd yn ein galluogi i gymharu'n uniongyrchol rhwng canrannau gorchudd coed heddiw ac yn y dyfodol.

Yn hollbwysig, mae gorchudd coed yn cael ei fesur gan sefydliad sy'n annibynnol ar y Cyngor.

Bydd mesur y targed hwn yn ddibynnol ar Gyfoeth Naturiol Cymru'n cynnal asesiad gorchudd coed yn y dyfodol tua diwedd cyfnod y cynllun yn seiliedig ar arolygon newydd o luniau o'r awyr. Mae'n debygol y bydd arolygon ac asesiadau eraill yn cael eu cynnal gan ei bod yn ffordd gost effeithiol o ddeall natur a graddau'r sefyllfa coed trefol.

Mae'r targed o 18% o orchudd coed yn uchelgeisiol ond yn bosib'. O gymharu, mae Strategaeth Coed a Choetir Wrecsam 2016-2026 yn ceisio cynyddu gorchudd coed o 17.4% (2013) i 20%[13]. Mae Coed Cadw hefyd yn ymgyrchu i gael 20% o orchudd coed mewn ardaloedd trefol[14]. I gefnogi'r targed o ran gorchudd coed a chyflawni gweledigaeth gyffredinol y cynllun, mae'r pum amcan canlynol yn ategu'r cynllun.

[13] Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. 2016. Strategaeth Coed a Choetir Wrecsam 2016-2026

[14] Coed Cadw. 2016. Papur Polisi, Mae Cymru'n well gyda choed

## Amcanion

1. Cynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu
2. Rheoli coed yn gynaliadwy
3. Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â choed
4. Hyrwyddo bioamrywiaeth
5. Gweithio mewn partneriaeth

Mae'r adrannau canlynol yn trafod pob un o'r pum amcan a sut y byddant yn cael eu cyflawni. Nid yw'r amcanion wedi'u cyfyngu i reoli coed ar dir y Cyngor ei hun ac maent yn cynnwys rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ogystal â deddfwriaeth arall y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei gweinyddu dan ddeddfau eraill y Senedd. Yn olaf, ni all y Cyngor weithredu ar ei ben ei hun ac mae'r amcanion yn cydnabod yr angen iddo weithio mewn partneriaeth gyda'r cyhoedd a sefydliadau eraill.

# 5.0 | Amcan 1 – Cynyddu faint o goed sy’n cael eu plannu

## 5.1. | Cyrraedd y targed gorchudd coed

Plannu coed newydd yw’r ffordd fwyaf uniongyrchol o gynyddu faint o goed sy'n gorchuddio trefi ac mae ad-drefnu gwasanaethau yn golygu mai coedwyr y Cyngor sy’n uniongyrchol gyfrifol am goed mewn sawl man agored cyhoeddus a gallant hyrwyddo plannu coed wrth ymgynghori gyda budd-ddeiliaid.

Fel cam cyntaf, bydd safleoedd plannu coed yn cael eu nodi ar lefel strategol a fydd yn caniatáu i’r targed o 18% o orchudd coed gael ei gyflawni. Mae’r cynllun hefyd yn rhoi sicrwydd y bydd y coed fel ased naturiol sy'n tyfu yn llawer mwy buddiol na gwerth y costau cynnal a chadw hirdymor ac unrhyw ddyledion.

Yn y gorffennol, ni fu polisi o blannu coed yn lle rhai sy’n cael eu torri ar dir sy’n cael ei reoli gan y Cyngor. Ni fyddai coed yn cael eu plannu yn lle rhai a dorrwyd pan oedd amgylchiadau unigol yn gwneud hynny’n angenrheidiol. Roedd y dull yn amlwg yn anghynaliadwy ac yn arwain at leihad mewn ased naturiol allweddol.

I gyflawni’r targed o 18% o orchudd coed, bydd angen cynnal y coed sy'n bod eisoes drwy blannu coed newydd pan mae angen torri coed a phlannu nifer sylweddol o goed o'r newydd. Bydd angen gwneud y gwaith plannu yn neng mlynedd gyntaf y cynllun er mwyn i'r coed gael cyfle i ddatblygu eu canghennau ac i allu eu mesur yn rhan o'r gorchudd coed mewn trefi.

Fel cymhariaeth, bydd coetir 100m x 100m gyda chanopi dwys yn darparu un hectar o orchudd coed neu ychydig yn fwy os yw’r coed ar y cyrion yn ymestyn y tu hwnt i ffin y coetir. Bydd un goeden sydd bron ar ei llawn dwf a radiws ei choron yn 3m o faint yn gorchuddio 28m² a bydd coeden llawn-dwf a radiws ei choron yn 9m o faint yn gorchuddio 254m². Mae Tabl 3 yn darparu enghreifftiau o faint coronau a sut y gallant gyfrannu at lefel gorchudd coed. Mae’r tabl yn dangos sut y gall colli coed llawn-dwf arwain at ostyngiad sylweddol mewn gorchudd coed.

| Enghreifftiau o orchudd coed | | |
|---|---|---|
| Dosbarth oedran y coed | Radiws coron y coed (m) | Nifer y coed y mae eu hangen i gael 1 hectar o orchudd |
| Ifanc | 1.5m | 1,428 |
| Bron ar eu llawn dwf | 3m | 357 |
| Ar eu llawn dwf | 7m | 65 |
| Ar eu llawn dwf | 9m | 39 |

Tabl 3. Enghreifftiau o orchudd coed

Mae Tabl 4 yn cymharu’r gorchudd coed ar hyn o bryd a'r targed arfaethedig o ran gorchudd coed ym mhob Categori Defnyddio Tir yn yr astudiaeth. Mae'r targedau gorchudd coed ym mhob Categori Defnyddio Tir wedi’u cyfrifo i gyflawni’r targed cyffredinol o 18% ac mae’r targed yn llawer uwch yn y Categorïau Defnyddio Tir lle gall y Cyngor blannu coed heb orfod dibynnu ar berchnogion tir eraill i gael caniatâd. Mae’r cynllun yn canolbwyntio’n bennaf ar fannau agored anffurfiol, mannau agored ffurfiol a choridorau cludiant. Er enghraifft, mae’r cynllun yn cynnig cynyddu gorchudd coed mannau agored anffurfiol o 46% i 65% erbyn 2032.

Mae’r cynllun yn cynnig cynnydd cymedrol o ran gorchudd coed ar dir addysg o 9.7% i 12% a mynwentydd o 13.3% i 14%.

Mae'r cynllun hefyd yn nodi cynnydd bach o ran gorchudd coed ar gyfer ardaloedd preswyl dwys, ardaloedd preswyl gwasgaredig ac ardaloedd masnachol. Nid yw'r Cyngor yn berchennog tir mawr yn y tri Chategori Defnyddio Tir hyn ond dyma lle gallai polisïau cynllunio a hyrwyddo'r cynllun gynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu.

| Categori Defnyddio Tir Trefol | Cyfanswm Defnydd Tir (hectarau) | 2013 Gorchudd coed | | 2033 Targed gorchudd coed | | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | (hectar) | (%) | (hectar) | (%) | Newid (%) | |
| Ardaloedd masnachol | 739.97 | 77.65 | 10.4% | 81.40 | 11% | +1.6% | Tirlunio effeithiol drwy gynllunio neu blannu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor |
| Addysg | 189.29 | 18.30 | 9.7% | 22.71 | 12% | +2.3% | Gweithio mewn partneriaeth â phenaethiaid |
| Ysbytai | 10.38 | 2.04 | 19.7% | 10.38 | 2.04 | 0% | Categori Defnyddio Tir Lleiaf. Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Mynwentydd | 26.96 | 3.58 | 13.3% | 3.77 | 14% | +0.7% | Hyrwyddo plannu coed yn lle rhai sy'n cael eu torri a phlannu ychwanegol |
| Gweddill cefn gwlad | 193.73 | 19.14 | 9.9% | 19.14 | 9.9 % | 0% | Set ddata ddim yn ddefnyddiol iawn i gyrraedd targed y cynllun |
| Mannau agored ffurfiol | 371.26 | 81.43 | 22.0% | 111 | 30% | +8.0% | Categori Defnyddio Tir allweddol i gyrraedd targed y cynllun |
| Mannau agored anffurfiol | 325.20 | 151.58 | 46.6% | 211 | 65% | +18.4% | Categori Defnyddio Tir allweddol i gyrraedd targed y cynllun |
| Coetir | 84.66 | 84.66 | 100% | 84.66 | 100 % | 0% | 100% dan orchudd coed yn barod |
| Ardaloedd preswyl dwys | 114.72 | 3.62 | 3.0% | 4.6 | 4% | +1% | ACLl yn hyrwyddo a gwarchod |
| Ardaloedd preswyl gwasgaredig | 1683.52 | 168.86 | 10.0% | 202 | 12% | +2% | ACLl yn hyrwyddo a gwarchod |
| Coridorau cludiant | 689.79 | 69.74 | 10.1% | 103.50 | 18% | +7.9% | Categori Defnyddio Tir allweddol i gyrraedd targed y cynllun |
| Tir di-ddosbarth | 413.10 | 20.28 | 4.9% | 20.28 | 4.9 % | 0% | Set ddata ddim yn ddefnyddiol iawn |
| Cyfanswm | 4824.59 | 700.89 | 14.5% | 874.44 | 18.1 % | +3.6% | |

Tabl 4. Categorïau defnyddio tir, cymariaethau gorchudd coed a'r targed (Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru)

## 5.2. | Mannau agored ffurfiol

Mae mannau agored ffurfiol yn cyfrif am 8% o ardaloedd trefol ac i gyrraedd ffigwr cyfartalog o 18% o orchudd coed trefol, bydd angen defnyddio llawer mwy o laswelltir presennol i blannu coed. Mae glaswellt sy'n cael ei dorri'n rheolaidd yn gynefin gwael i fywyd gwyllt ac mae'n costio mwy i'w gynnal a'i gadw na thir â glaswellt mwy gyda choed wedi'u plannu arno[15]. Mae'n bwysig bod y Cyngor yn darparu mannau agored hygyrch fel buddsoddiad yn lles y cyhoedd[16] ac mae'n cael ei gydnabod ei bod yn well gan bobl gyfuniad o fannau agored a choed na choetir trwchus[17]. Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar blannu coed mewn lleoliadau strategol mewn mannau agored ffurfiol i ail-greu'r mannau agored a ffefrir.

I wella bioamrywiaeth, mae cyfle hefyd i hau blodau gwyllt ger y coed lle nad yw'r glaswellt yn cael ei dorri mor aml yn rhan o ddulliau rheoli mannau agored diwygiedig.



Llun 2. Coed llawn-dwf a thir parc ym Mharc Gwepra sydd wedi'i gategoreiddio fel man agored ffurfiol



Llun 3. Coed ifanc a blannwyd yn The Willows, yr Hôb, wedi'i gategoreiddio fel man agored ffurfiol

I gynorthwyo â chreu gorchudd coed gwydn ac amrywiol, bydd rhywogaethau llai cyffredin o goed yn cael eu plannu. Bydd y rhywogaethau llai cyffredin hyn hefyd yn fwy diddorol ac ni fyddant yn edrych yn od mewn tirlun mwy ffurfiol. Mewn mannau agored ffurfiol, mae gorddibyniaeth ar goed ar eu llawn dwf a hen goed i ddarparu gorchudd a byddai plannu coed newydd yn arwain at goed o oed a maint mwy amrywiol.

## 5.3. | Mannau agored anffurfiol

Mannau agored anffurfiol sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i ddarparu mwy o orchudd a chyrraedd y targed o 18% erbyn 2033. Mae mannau agored anffurfiol yn cyfrif am 7% o ardaloedd trefol ac maent yn llai perffaith na mannau agored ffurfiol, sy'n rhoi mwy o gyfle i blannu coed. Lle nad yw'r cyhoedd yn hamddena llawer, gallai ardaloedd gael eu gadael i aildyfu â choed neu blannu coed ifanc i greu coetir newydd. Gall llwybrau answyddogol presennol ar draws mannau agored anffurfiol gael eu creu'n llwybrau pendant i ganiatáu mynediad mewn coetir, llennyrch ac ymysg coed. Bydd yn fwy addas plannu coed brodorol neu rywogaethau cyffredin eraill yn yr ardaloedd hyn.

[15] Land Use Consultants. 2011. *Trees or Turf?* Coed Cadw

[16] Sefydliad Iechyd y Byd (WHO). 2017. *Urban green spaces: a brief for action*

[17] Land Use Consultants. 2011. *Trees or Turf?* Coed Cadw

| Categori Defnyddio Tir | Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|---|
| Mannau agored ffurfiol | Amlwg iawn<br>Cael eu defnyddio'n aml ar gyfer hamdden<br>Buddion o ran lles | Bydd angen newid contractau lladd gwair<br>Angen lle i gemau pêl anffurfiol | Lle bo hynny'n briodol, cyfuno â dolydd blodau gwyllt i ddarparu mwy o fioamrywiaeth<br>Mae'r ardaloedd mwyaf ffurfiol yn addas i blannu coed ifanc sy'n darparu'r manteision mwyaf<br>Rhywogaethau llai cyffredin i'w gwneud yn fwy diddorol | Bydd angen sgiliau newydd i'w cynnal a'u cadw |
| Mannau agored anffurfiol | Gorchudd coed fel arfer yn weladwy ac yn hygyrch<br>Mae ardaloedd anffurfiol yn debygol o fod â mwy o fioamrywiaeth oherwydd llai o amhariad. | Bydd angen newid contractau lladd gwair | Gallai ardaloedd llai ffurfiol fod yn addas i'w datblygu'n goetir drwy aildyfiant naturiol, a fyddai'n lleihau costau sefydlu. | Bydd angen sgiliau newydd i'w cynnal a'u cadw |

Tabl 5. Dadansoddi'r potensial am goed yng Nghategorïau Defnyddio Tir mannau agored ffurfiol ac anffurfiol

## 5.4. | Coridorau cludiant

Ac eithrio cefnffyrdd sy'n cael eu rheoli gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru, rheilffyrdd a ffyrdd preifat, bydd y rhan fwyaf o goridorau cludiant yn cael eu rheoli gan Gyngor Sir y Fflint fel yr Awdurdod Priffyrdd. Coridorau cludiant yw 14.2% o dir trefol yn ôl arwynebedd, sydd tua'r un faint â mannau agored ffurfiol ac anffurfiol ond gydag ond 10% o'r arwynebedd dan goed. Mae hyn yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer Categorïau Defnyddio Tir eraill er bod cyfran fawr o'r Categori'n cynnwys ymylon ffyrdd meddal sy'n addas i blannu coed arnynt.

| Coridorau cludiant | | | |
|---|---|---|---|
| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
| Amlwg iawn<br>Lleihau sŵn a llygredd traffig<br>Rhoi cysgod rhag gwynt a glaw<br>Bydd plannu coed ar y stryd yn cymedroli tymheredd uchel yn yr haf ac yn dal glaw | Diogelu isadeiledd priffyrdd<br>Bydd angen diogelu cyfleustodau tanddaearol a rhai uwch ben<br>Mae plannu ar leoedd caled yn ddrud | Gorchudd coed is na'r cyfartaledd<br>Ymylon ffyrdd meddal sy'n addas i blannu coed arnynt<br>Gall plannu ar ymylon ffyrdd gael ei gyfuno ag ymylon blodau gwyllt. | Coed newydd yn agored i niwed. |

Tabl 7. Dadansoddi potensial gorchudd coed ar gyfer coridorau cludiant

Mae angen cynllunio'n ofalus wrth blannu coed ar dir priffyrdd i osgoi rhwystrau i yrwyr weld y ffordd a gweithio'n agos at gyfleustodau tanddaearol. Er hynny, o ganlyniad i'w lleoliadau, bydd coed ar dir priffyrdd yn amlwg iawn a byddant hefyd yn darparu'r manteision amgylcheddol mwyaf.

Bydd yr ymylon lletaf yn addas i blannu coed ifanc yn nes at ei gilydd a gellid plannu coed mwy yn strategol ar hyd yr ymylon mwyaf cul.



Llun 5. Plannu ar ymyl ffordd meddal



Llun 6. Coed llawn-dwf ar ochr y briffordd yn y Fflint

Mae plannu yn y pafin ar strydoedd yn dechnegol heriol ac mae angen ymgynghori gyda nifer o fudd-ddeiliaid (e.e. peirianwyr priffyrdd, darparwyr cyfleustodau, gweithwyr tirlunio a gweithwyr coed). Rhaid i waith plannu fodloni safonau priffyrdd a chreu amodau addas i goed dyfu. Er hynny, gall plannu coed ar strydoedd fod yn effeithiol iawn i wella ansawdd y parth cyhoeddus. Oherwydd ei fod yn eithaf costus, mae gwaith plannu mewn pafin fel arfer yn cael ei wneud yn rhan o gynlluniau adfywio sydd wedi'u hariannu'n allanol.

Wrth gynllunio a phlannu coed ar wynebau caled, dilynir canllawiau arfer orau sydd yn *Trees in Hard Landscapes* ac egwyddorion arweiniol *Llawlyfr Strydoedd 2*. Er mwyn plannu coed ar strydoedd yn llwyddiannus, bydd angen goresgyn materion technegol a gwrthwynebiadau sydd wedi dod i'r amlwg yn y gorffennol.






Llun 7 ac 8. Gwaith plannu ar stryd yn y Fflint a wnaed yn 2013 (cyn plannu, chwith, ac ar ôl plannu, dde)

## 5.5. | Addysg

Mae tir addysg yn cyfrif am gyfran gymharol fechan (3.9%) o dir trefol felly cyfyngedig yw'r potensial am gynnydd sylweddol o ran gorchudd coed mewn ysgolion ac ar dir addysg arall. Mae peth tir addysg (e.e. Coleg Cambria) ar wahân yn gyfan gwbl i Gyngor Sir y Fflint ac mae nifer o ysgolion Cyngor Sir y Fflint yn cynnal a chadw eu tir yn annibynnol. Er hynny, cymharol

brin yw gorchudd coed dros dir addysg (10%) a bydd cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth gyda phenaethiaid i gael 12% o orchudd coed er budd disgyblion a'r gymuned ehangach.

Mae nifer o ysgolion Sir y Fflint yn rhan o Ysgol y Goedwig, prosiect sy'n hyrwyddo dysgu ymarferol mewn coetir neu amgylchedd naturiol yn yr awyr agored gyda choed. Mae cyfle i dargedu ysgolion sy'n rhan o brosiect Ysgol y Goedwig gan eu bod yn fwy tebygol o werthfawrogi'r deilliannau.

Gall rhai ysgolion fod yn erbyn risgiau a dewis peidio â chymryd rhan mewn prosiectau plannu coed er bod manteision coed i iechyd yn llawer mwy na'r risg maent yn ei achosi. Bydd angen mynd i'r afael â hyn drwy gyngor a gwybodaeth.

| Addysg | | | |
|---|---|---|---|
| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
| Adnodd addysg ar gyfer addysg awyr agored Ysgol y Goedwig<br>Darparu cysgod i ddisgyblion | Mae rhai ysgolion wedi dewis peidio â mynd am gontract cynnal a chadw tir y Cyngor a gweithredu'n annibynnol<br>Mae angen diogelu caeau chwaraeon, sy'n cyfyngu ar y potensial | Gall disgyblion gymryd rhan mewn cynlluniau plannu<br>Cyfradd gymharol isel o orchudd coed, a allai gynyddu'n sylweddol | Gall ysgolion fod yn awyddus i osgoi unrhyw risg |

Tabl 8. Dadansoddi potensial gorchudd coed ar dir addysg

### 5.6. | Mynwentydd

Yn cyfrif am 0.6% o dir trefol, mynwentydd yw'r defnydd tir lleiaf sylweddol y mae'r Cyngor yn gyfrifol am eu rheoli. Bydd y Categori Defnyddio Tir hwn yn cynnwys mynwentydd yng Nghei Connah, y Fflint a Phenarlâg. Mae 13.3% o orchudd coed dros fynwentydd ac felly mae ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Sir y Fflint ac mae targed rhesymol o 14% wedi'i gynnig gyda gwaith plannu coed newydd. Mae'n amlwg nad oes coed wedi cael eu plannu mewn estyniadau i fynwentydd presennol ac mae hyn yn rhywbeth y gellid mynd i'r afael ag o'n sensitif, gan weithio mewn partneriaeth â'r swyddogion perthnasol.

### 5.7. | Coetir

Roedd yr astudiaeth yn categoreiddio gorchudd coed a oedd yn fwy na 0.5 hectar dan ddefnydd tir coetir. Mae coetir yn gorchuddio 5% o'r ardal drefol, a choed amwynder yn 9%.

Gan fod gorchudd coed yn y Categori Defnyddio Tir 'coetir' eisoes yn 100%, ni ellir ei gynyddu. Yn hytrach, bydd unrhyw goed coetir newydd yn cael eu mesur drwy Gategori Defnydd Tir arall yn cael ei ailddosbarthu'n goetir. Mae'r rhan fwyaf o goetir wedi'i leoli yng nghefn gwlad, ond gellir hefyd dod o hyd iddo mewn ardaloedd trefol a lled-drefol lle mae coetir hynafol lled-naturiol wedi'i warchod rhag datblygiadau (e.e. Coed Broadoak yng Nghei Connah) neu goetir wedi tyfu ar hen dir diwydiannol (e.e. Dyffryn Maes-glas). Mae rhwydwaith o lwybrau yn y rhan fwyaf o goetir trefol sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i'r rhannau tawelaf a mwyaf heddychlon, sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i leihau straen a chysylltu â natur.

### 5.8. | Ardaloedd masnachol

Mae ardaloedd masnachol fel Parc Busnes Maes-glas a Neuadd y Sir yn cael eu rheoli gan y Cyngor ond busnesau fydd y rhan fwyaf o'r Categori Defnyddio Tir hwn. Ni fydd y categori hwn yn cael ei dargedu benodol ar gyfer plannu coed, ond disgwylir gallu gwneud cynnydd bach o ran gorchudd coed (+1.6%) drwy bolisïau cynllunio a rheolaeth fwy cynaliadwy ar dir sy'n cael ei gynnal gan y Cyngor.

## 5.9. | Tir arall

Nid yw'r Cyngor yn fudd-ddeiliad allweddol mewn Categorïau Defnyddio Tir eraill, ond gall weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i blannu coed i gael mwy o orchudd coed. Mae gweithio mewn partneriaeth yn fwy tebygol o ddigwydd yn nes ymlaen yn oes y cynllun a gallai gynnwys sefydliadau fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn a Pennaf.

## 5.10. | Cynllunio, plannu coed a gofalu amdanynt

Mae cynlluniau plannu coed sydd wedi'u cynllunio a'u gweithredu'n dda yn haws i'w cynnal ac yn llai tebygol o fethu. Bydd rhywogaethau’r coed yn addas ar gyfer y math o bridd, draenio a'r lleoliad. Yn benodol, bydd mathau o goed sydd â choron dynn yn cael eu defnyddio pan nad oes llawer o le (e.e. pafinau) a rhywogaethau sy'n ymestyn yn bell (e.e. ffawydd) yn cael eu defnyddio mewn parciau lle gallant dyfu heb gyfyngiadau a rhoi'r buddion gorau. Bydd cynlluniau plannu coed hefyd yn ystyried pa mor debygol yw fandaliaeth achlysurol, gan nodi lle mae angen coed mwy a chryfach a/neu amddiffynwyr coed.

Bydd gwaith plannu coed yn cydymffurfio â’r Safon Brydeinig berthnasol ddiweddaraf[18] sy’n trafod ansawdd y coed ifanc, gwerthuso safle, dewis rhywogaethau, eu trin, eu plannu a chynnal a chadw ar ôl plannu. I leihau’r risg o bla neu glefyd yn cael ei fewnforio o dramor, bydd y Cyngor yn ffafrio stoc sydd wedi'i dyfu yn y DU, neu stoc sydd wedi tyfu am o leiaf flwyddyn mewn meithrinfa yn y DU os yw'r coed wedi'u mewnforio. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen i stoc coed ifanc fod â Phasbort Planhigion yr UE.

Er mwyn lleihau’r perygl o glefydau penodol (e.e. clefyd coed ynn), a allai ddod yn fwy amlwg o ganlyniad i newid hinsawdd, bydd ystod o rywogaethau'n cael eu dewis o genera a theuluoedd botaneg gwahanol. Er mwyn gwytnwch, mae Santamour[19] yn argymell na ddylai coed, fel rhan o'r goedwig drefol gyfan, gynnwys mwy na 10% o un rhywogaeth, 20% o un genws a 30% o un teulu.

Ni fydd coed yn cael eu plannu oni bai fod darpariaeth i'w cynnal yn ddigonol tan maent wedi ymsefydlu. Bydd angen monitro a chynnal y rhan fwyaf o gynlluniau plannu am 3 blynedd. Bydd hyn yn cynnwys rheoli chwyn, dyfrio coed mawr, sicrhau bod clymau a pholion i ddal coed yn iawn, tocio i’w tacluso a, lle bo angen, plannu coed yn eu lle. Mae’n bwysig plannu coed newydd yn lle unrhyw rai sydd wedi marw neu wedi'u fandaleiddio i ddangos bod y cynllun plannu'n cael ei reoli ac na fydd yn cael ei adael a'i anghofio. Mae cynlluniau heb eu cynnal yn debygol o gael eu fandaleiddio mwy.

Yn ogystal â bod angen eu cynnal, bydd cynlluniau plannu coed yn gofyn am adolygu rhaglenni cynnal tir hirdymor. Gall ardaloedd o laswellt sy'n cael ei dorri gael ei dorri gyda pheiriannau ar dractor o fewn 5m i goed gan adael darn o laswellt hirach o dan y coed i'w dorri unwaith neu ddwywaith y flwyddyn os dymunir. Pan fo angen torri glaswellt yn rheolaidd wrth goeden, gellir defnyddio peiriant torri bach sy'n cael eu yrru. Ni ddylid defnyddio strimiwr gwair wrth fonion y coed dan unrhyw amgylchiadau gan fod hyn yn arwain at ddifrod anochel.

---

[18] Sefydliad Safonau Prydeinig. 2014. *Trees: from nursery to independence in the landscape –Recommendations*.

[19] Santamour, Frank S. 1990. *Trees for Urban Planting: diversity, uniformity, and common sense. Proceedings of the 7th Conference of the Metropolitan Tree Improvement Alliance*.



Llun 9. Cae chwarae Park Avenue, Saltney



Llun 10. Park Avenue, Saltney

## 5.11. | Ardal beilot Cei Connah

Gyda phoblogaeth o dros 33,000 ac fel y ddegfed ardal drefol fwyaf yng Nghymru, mae gorchudd coed Cei Connah o 15.7% yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol (16.3%) ond yn uwch na'r cyfartaledd yn Sir y Fflint.

Fel yr ardal drefol fwyaf yn Sir y Fflint, mae angen canolbwyntio'n fwy manwl ar y dref ac mae'r astudiaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru[20] yn cynnwys arolwg bras o safleoedd plannu posib' yng Nghei Connah. Canfu'r arolwg bod potensial sylweddol i blannu a chynyddu gorchudd coed ar 'ardaloedd gwyrdd' sydd ar gael. Yn theoretig, canfu'r astudiaeth y gellid cael 62% o orchudd coed (14% yn 2009) pe bai'r holl 'ardaloedd gwyrdd' presennol yn cael eu targedu. Fel y brif ardal drefol a chyda potensial sylweddol i gynyddu gorchudd coed, bydd pum mlynedd gyntaf y cynllun yn targedu plannu coed newydd yng Nghei Connah. Mae gan Wasanaeth Cefn Gwlad y Cyngor eisoes bartneriaethau gwaith da gyda'r gymuned, drwy ei waith ar yr arfordir ac ym Mharc Gwepra, ac mae bwriad i gryfhau'r partneriaethau gwaith hyn i blannu coed.

## 5.12. | Ardaloedd targed Brychdyn a Saltney

Brychdyn a Saltney yw'r ddwy ardal yn y sir sydd â'r lleiaf o goed yn eu gorchuddio a bydd camau cynnar y cynllun yn canolbwyntio ar gynyddu faint o goed sydd ar safleoedd y Cyngor yn y ddau le.

Fel cam cyntaf, bydd y Cyngor yn edrych ar blannu coed ar dir sy'n cael ei gynnal ganddo ar gae chwarae Park Avenue (Llun 9) gyda budd-ddeiliaid. Yn nes ymlaen yng nghyfnod y cynllun, gellir archwilio pa mor bosib' yw plannu coed ar stryd Park Avenue ei hun (Llun 10).

Mae Maes Awyr Penarlâg yn faes glanio sy'n cael ei weithredu gan Airbus dan reolau diogelwch Asiantaeth Diogelwch Hedfan Ewrop. Mae'r maes glanio wedi'i leoli i'r gogledd o Frychdyn ac mae ffatri gyfagos Airbus yn gyflogwr mawr yn y sir. Y cam cyntaf arfaethedig i gael mwy o orchudd coed ym Mrychdyn yw ymgynghori gydag Airbus i weld a oes cyfyngiadau oherwydd y maes glanio.

[20] Cyfoeth Naturiol Cymru, 2013. *Tree Cover in Flintshire*

# 6.0 | Amcan 2 – Rheoli coed yn gynaliadwy

Mae cynaliadwyedd wrth wraidd polisïau Llywodraeth Cymru ac mae'n rhaid i reoli coed a choetir trefol yn gynaliadwy fod yn amcan gyffredinol i'r Cyngor.

| Rheoli coed | |
|---|---|
| **Dull traddodiadol – llai cynaliadwy** | **Dull modern – llai cynaliadwy** |
| Canolbwyntio ar goed unigol<br>Gwerthfawrogi'n bennaf am eu hamwynder gweledol<br>Dim cydnabyddiaeth i werth ariannol coed<br>Rheoli'n unigol<br>Adnodd sy'n eiddo i'r perchennog | Canolbwyntio ar yr adnodd coedwig drefol cyfan<br>Coed yn cael eu cydnabod fel rhan bwysig o isadeiledd trefol gyda buddion sylweddol i ecosystemau<br>Gwerth ariannol coedwig drefol yn cael ei gydnabod<br>Rheoli'n integredig<br>Adnodd sy'n cael ei rannu |

Tabl 9. Cymariaethau rheoli coed (Cyngor Gogledd Sydney. 2011)

Roedd y dull traddodiadol o reoli coed yn edrych ar goeden unigol a'r hyn roedd ei angen i ddatrys problem neu fater penodol. Nid oedd y dull traddodiadol yn strategol ac nid oedd y gorchudd coed yn cael ei fesur, felly roedd ansicrwydd a oedd yn gynaliadwy. Roedd dyfodiad mudiad coedwigaeth drefol yn cydnabod bod yr adnodd coedwig drefol cyfan yn llawer mwy na'r rhannau unigol gyda'i gilydd a'i fod yn adnodd i bawb sydd â gwerth ariannol. I reoli gorchudd coed trefol yn gynaliadwy, bydd angen i'r Cyngor fabwysiadu dull modern (Tabl 9).



Llun 11. Gorchudd coed trefol yr Wyddgrug

Mae coedwyr y Cyngor yn gyfrifol am reoli coed sy'n tyfu ar ymylon ffyrdd, strydoedd, parciau trefol, ardaloedd dinesig a pharciau gwledig. Mae coed sydd ar dir arall y Cyngor (e.e. eiddo â thenantiaid, parciau busnes Sir y Fflint, mynwentydd) yn cael ei reoli gan yr adran berthnasol gyda chyngor gan goedwyr y Cyngor yn cael ei ddarparu yn unol â'r lefelau gwasanaeth y cytunwyd arnynt. Wrth i newidiadau gael eu gwneud i strwythur y sefydliad, disgwylir y bydd coedwyr y Cyngor yn dod ynghlwm yn fwy uniongyrchol â rheoli coed adrannau eraill a fydd yn arwain at eu rheoli'n fwy strategol a chynaliadwy.

Mae gan y Cyngor rôl i sicrhau bod coed ar dir arall yn cael eu rheoli'n gynaliadwy drwy ddefnyddio pwerau cynllunio a hyrwyddo arfer orau.

### 6.1. | Rheoli coetiroedd

Bydd y Cyngor yn gwarchod a gwella ei goetir trefol ei hun gydag arweiniad cynlluniau rheoli coetir hirdymor. Bydd cynlluniau rheoli'n seiliedig ar bolisi o orchudd parhaus fel bod gorchudd coed yn y tymor hir yn parhau'r un fath neu'n cael ei gynyddu. Ni fydd coed ond yn cael eu torri pan fo rhesymau diogelwch pwysicach na'u cadw, er mwyn hwyluso aildyfiant naturiol neu i blannu coed newydd. Pan ystyrir bod torri coed yn dderbyniol, ni fydd ond yn digwydd mewn darnau bach o goetir neu i deneuo coed. Mewn achosion eithriadol, efallai y bydd coed prysgwydd ifanc yn cael eu clirio i wella cymunedau planhigion penodol o brin (e.e. glaswelltir calchfaen), nodweddion daearegol (e.e. calchbalmant) neu henebion.



Llun 12. Coetir trefol ym Mharc Gwepra

Bydd angen rheoli coetir gan ymgynghori gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a, lle bo angen, gyda thrwydded torri coed a/neu ganiatâd arall i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig. Pan fo grantiau ar gael i reoli coetir, bydd y Cyngor yn ceisio cael cyllid i gyfrannu at gost y gwaith. Er nad yw cynhyrchu pren i'w werthu'n amcan i reoli coetir trefol gan y Cyngor, bydd unrhyw bren sy'n cael ei dorri'n cael ei roi ar y farchnad a'i werthu os oes cyfle. Fel enghraifft, cafodd pren llarwydd a gafodd eu torri ei lifio'n blanciau gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad a'i werthu fel cladin i adeiladau ysgol a strwythurau allanol yn Ysgol Tŷ Ffynnon ac Ysgol Pentref Penarlâg.

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â pherchnogion coetir eraill i gyflawni amcanion cyffredin. Bydd coed trefol sy'n cael eu hystyried i fod dan fygythiad datblygiadau yn cael eu diogelu gan y Cyngor gan ddefnyddio ei rym fel Awdurdod Cynllunio Lleol.

Amcanion cynlluniau rheoli coetir fydd:

- Cynyddu bioamrywiaeth
- Sicrhau gwytnwch
- Diogelu rhywogaethau, cynefinoedd a nodweddion a warchodir (e.e. henebion)
- Wedi'u rheoli'n dda o safbwynt tyfu coed
- Cynnal rhinweddau tirlunio a hynodrwydd lleol
- Caniatáu mynediad i'r cyhoedd wedi'i reoli
- Ymgysylltu â'r gymuned

## 6.2. | Blaenoriaethu archwiliadau coed

Bydd archwiliadau mewn ymateb i ymholiadau'n cael eu blaenoriaethu yn ôl lefel y risg i bobl ac eiddo (Tabl 10). Mae mwy o wybodaeth am reoli risg yn Adran 7.

| Blaenoriaethu archwiliadau coed | | | |
|---|---|---|---|
| Categori | Enghraifft | Adran | Ymateb |
| Brys | Coed/canghennau wedi disgyn yn rhwystro ffordd ddosbarthedig gan gynnwys coed o dir preifat. | Strydwedd | 1-5 diwrnod |
| Blaenoriaeth Uchel | Risg y gall coeden ansad neu gangen fawr ddisgyn ar ffordd ddosbarthedig neu lwybr cerdded, gan gynnwys coed ar dir preifat. | Strydwedd | |
| | Risg y gall coeden ansad neu gangen fawr ddisgyn ar ffordd ddi-ddosbarth, gan gynnwys coed ar dir preifat. | Strydwedd | |
| | Coed neu ganghennau sydd ar dir y Cyngor wedi disgyn ar adeiladau. | Pob un | |
| | Coed neu ganghennau sydd mewn perygl o ddisgyn ar adeilad. | Pob un | |
| Blaenoriaeth Ganolig | Coed sy'n agos at y briffordd sydd wedi marw neu yn marw ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn beryglus.<br>Coed sy'n achosi niwsans gweithredol.<br>Coed neu ganghennau sy'n eiddo i'r Cyngor sydd wedi disgyn ar dir drydydd parti ond heb achosi difrod i adeiladau na strwythurau.<br>Hysbysiad Iechyd Planhigion a roddwyd i reoli pla neu glefyd rhag lledaenu. | Pob un | 1-4 wythnos |
| Blaenoriaeth Isel | Coed neu lystyfiant arall sy'n rhwystro llwybr cerdded neu lain wededdd. | Strydwedd | 2-6 wythnos |
| | Canghennau coed sy'n rhwystro arwydd ar briffordd neu olau stryd. | Strydwedd | 4-12 wythnos |

Tabl 10. Blaenoriaethu archwiliadau coed

Fel perchennog tir sylweddol, mae'r Cyngor yn derbyn nifer o geisiadau a chwynion ynglŷn â choed ac mae'n bwysig ymdrin â nhw'n gyson ac yn gymesur. Oni bai fod rhesymau eithriadol pwysicach, ni fydd coed sy'n cael eu rheoli gan goedwyr y Cyngor yn cael eu tocio na'u torri, am gost i'r Cyngor, o ganlyniad i'r canlynol:-

- Honni eu bod yn rhy uchel
- Cysgod (oni bai eu bod yn orthrymol)
- Colli golygfa
- Gollwng cawod fêl/sug
- Gollwng dail neu weddillion tymhorol eraill
- Ymyrryd â signal teledu
- Effeithio ar effeithlonrwydd paneli solar
- Cyffwrdd â gwifrau telegyfathrebu uwch ben
- Canghennau'n hongian uwch ben

Mae'r polisi hwn yn unol â'r hawliau cyfraith gyffredin sy'n bodoli rhwng perchennog coeden a pherson sy'n gwneud cwyn. Bydd blaenoriaethu archwiliadau ac ymdrin ag ymholiadau'n unol â'r polisi'n galluogi coedwyr y Cyngor i weithio'n fwy effeithlon a threulio amser yn cyflawni amcanion eraill a tharged y cynllun.

Yn ystod tywydd garw, gallai gwaith ar goed gael ei ohirio tan mae'r amodau'n gwella digon i weithwyr y Cyngor neu ei gontractwyr allu gweithio'n ddiogel.

Mae cynnig i ehangu cronfa ddata gyfrifiadurol y Cyngor am goed i gynnwys pob prif safle sy'n eiddo i'r Cyngor (e.e. parciau, ysgolion a mynwentydd). Bydd hyn yn rhoi darlun mwy cyflawn o orchudd coed mewn trefi y gellir ei ddefnyddio wedyn i wneud Prosiect i-Tree Eco[21] a phennu gwerth yr adnodd coed trefol, yn debyg i'r hyn a wnaed yn Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd.

### 6.3. | Canghennau'n hongian uwch ben

Yn ôl y gyfraith, gall cymydog, neu gontractwr sy'n gweithredu ar ran y perchennog, docio canghennau sy'n hongian dros eu heiddo cyhyd ag nad ydynt yn tresbasu ar dir eu cymydog i wneud y gwaith (e.e. dringo'r goeden). Mae hefyd yn ofynnol cynnig tocion yn ôl i berchennog y goeden.

Cynghorir cymdogion sy'n dymuno arfer hawl dan y gyfraith gyffredin i dorri canghennau sy'n hongian uwch ben o goed ar dir y Cyngor i gysylltu â choediwr y Cyngor neu swyddog arall sy'n rheoli'r tir. Fel hyn, gellir trafod graddau'r gwaith, sut y ceir gwared â'r tocion a mynediad sydd i'w drefnu. Os oes rhaglen o gynnal a chadw coed wedi'i threfnu ar gyfer y safle, gallai'r Cyngor docio'r canghennau sy'n hongian uwch ben.

Bydd cwynion ac ymholiadau sy'n honni bod canghennau'n achosi niwsans gweithredol (e.e. tynnu teils to) yn cael eu harchwilio. Lle bo angen, bydd unrhyw gamau adfer yn cael eu cymryd gan y Cyngor i fynd i'r afael â'r niwsans a achosid.

---

[21] Treeconomics i-Tree Eco. Ar gael ar: http://www.treeconomics.co.uk [Defnyddiwyd 21 Medi 2017]

### 6.4. | Gwreiddiau coed

Mae haen orchudd Sir y Fflint wedi'i gwneud o rewglai, tywod a gro gyda thywod llifwaddod a caenau gro ar achlysur mewn dyffrynnoedd. Oherwydd y ddaeareg hon, nid yw'r math o bridd sy'n gorwedd arni'n crebachu wrth sychu ac mae'r potensial am ymsuddiant yn gysylltiedig â gwreiddiau coed yn isel. Er hynny, os tybir bod ymsuddiant wedi'i achosi gan wreiddio coeden y Cyngor, dylai unrhyw hawliad a gyflwynir i'r Cyngor gael ei ategu gan wybodaeth dechnegol (adroddiad coedyddiaeth, adroddiad peiriannydd strwythurol a chyfnod o fonitro craciau). Pan mae prawf mai coeden oedd prif achos ymsuddiant, bydd camau adferol yn cael eu cymryd sy'n briodol i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys amwynder ac arfer orau coedyddiaeth.


Llun 13. Gwreiddiau strwythurol a dorrwyd ychydig o dan yr wyneb wrth gloddio

Mae difrod uniongyrchol yn cael ei achosi gan wreiddiau coed pan maent yn gwthio yn erbyn strwythurau (e.e. wal, ffens) wrth iddynt dyfu. Pan honnir bod coeden sy'n eiddo i'r Cyngor yn achosi difrod i eiddo cyfagos, bydd yn cael ei archwilio a bydd camau'n cael eu cymryd sy'n gymesur â'r difrod a achoswyd, gwerth y goeden a'r hyn sydd ei angen i adfer y difrod.

Ni fydd gwreiddiau coed yn tyfu i mewn i beipen neu ddraen wrth dyfu fel arfer. Gall gwreiddiau dyfu i mewn i ddraeniau dŵr budr a dŵr wyneb sydd eisoes yn gollwng, a allai wneud unrhyw ddifrod yn waeth ac achosi rhwystr. Os oes gwraidd o goeden sy'n eiddo i'r Cyngor wedi tyfu i mewn i ddraen, y ffordd fwyaf priodol o ddatrys hynny fydd rhoi peipen blastig, sy'n llai tebygol o ollwng ac sy'n fwy hyblyg, yn lle'r darn sydd wedi torri. Lle bo hynny'n briodol, dylai trigolion holi i ganfod a yw carthffos sydd ar eu tir yn cael ei chynnal gan Ddŵr Cymru[22]. Fel arfer, nid ystyrir torri'r goeden.

Mae'r rhan fwyaf o wreiddiau coeden o fewn 1 metr i'r wyneb ble mae amodau pridd fwyaf addas i gynnal twf ac felly gall cloddio hyd yn oed yn eithaf bas achosi difrod mawr i'r gwreiddiau. Ar ben hynny, bydd gwreiddiau strwythurol coeden yn tyfu o fwtresi yn agos at y wyneb. Fel iawn am system wreiddiau fas, bydd y gwreiddiau'n tyfu ar draws gan ymestyn y tu hwnt i faint coron y goeden.

Rhaid i ddarparwyr cyfleustodau sy'n gosod ac yn cynnal gwasanaethau ar y briffordd gyhoeddus ddiogelu coed wrth ymgymryd â'u gwaith. Mae gwasanaethau tanddaearol yn aml yn rhannu ymylon ffyrdd cul neu lwybr troed ac yn mynd drwy ardal wreiddiau coed sy'n tyfu ar neu wrth ymyl y briffordd gyhoeddus. Bydd y Cyngor angen i waith stryd gael ei wneud yn unol â Chyfrol 4 o Ganllawiau Cyd-grŵp Cenedlaethol Cyfleustodau i gynllunio, gosod a

[22] Dŵr Cymru. [tua 2011] *Changes to the ownership of your drains and sewers*

chynnal a chadw cyfarpar cyfleustodau sy'n agos at goed[23] neu'n unol â chanllawiau cyfredol eraill ar arfer orau. Pan mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cael gwybod am waith stryd arfaethedig wrth ymyl coed, bydd y peiriannydd priffyrdd yn ceisio cyngor gan goedwyr y Cyngor. Pan mae darparwyr cyfleustodau'n torri gwreiddiau coed o ganlyniad i safonau proffesiynol gwael, bydd y Cyngor yn ceisio iawndal am y difrod a wnaed.

Ni fydd y Cyngor yn ystyried torri coeden iach i lawr ar ymyl priffordd er mwyn gosod cwrb is neu groesfan. Bydd ceisiadau i docio gwreiddiau coeden y Cyngor neu dorri canghennau is i allu gosod croesfan yn cael eu hystyried yn unigol ond ni fyddant ond yn cael eu caniatáu pan mae modd gwneud hynny'n unol ag arfer orau coedyddiaeth.

Bydd mannau sy'n achosi perygl o faglu oherwydd gwreiddiau'n cael eu hatgyweirio drwy godi'r lefel a thrwsio'r wyneb. Gall slabiau pafin llai hyblyg a phafin blociau gael ei newid am darmac neu gerrig rhydd wrth fôn y goeden. Lle nad yw hynny'n bosib', dylid ceisio cyngor gan goedwyr y Cyngor.

## 6.5. | Llinellau cyfleustodau uwch ben

Mae darparwyr telathrebu a thrydan yn cynnal gwaith i ddiogelu eu cyfarpar uwch ben. Oherwydd y perygl o farwolaeth, mae gan ddarparwyr trydan ymagwedd ragweithiol at reoli coed a gwrychoedd ar dir cyhoeddus a phreifat wrth ymyl llinellau uwch ben. Mae gwaith coed yn cael ei wneud gan gontractwyr ar ran darparwyr cyfleustodau a byddant yn nodi pa waith sydd ei angen ac yn cael caniatâd perchennog y tir cyn gwneud y gwaith am gost i'r darparwr cyfleustodau. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor fel arfer yn gwneud gwaith coed wrth ymyl llinellau uwchben oni bai ei fod yn cael ei nodi yn rhan o waith mawr arall ar goeden.

Wrth roi caniatâd i goed y Cyngor gael eu torri wrth ymyl llinellau uwch ben, bydd coedwyr y Cyngor yn sicrhau bod y gwaith, cyhyd â bo modd, yn diogelu amwynder a'i fod yn unol ag arferion da coedyddiaeth (e.e. *BS3998:2010 Tree work – Recommendations and adequate biosecurity*). Os rhoddir caniatâd i dorri coed i lawr, bydd disgwyl i'r darparwr cyfleustodau blannu coed yn eu lle mewn safle y cytunir arno.

## 6.6. | Gwaith diawdurdod ar goed ar dir y Cyngor

Gallai gwaith coed sydd heb ei gymeradwyo'n benodol gan swyddog y Cyngor gael ei gyfrif fel difrod troseddol. Pan mae gwaith diawdurdod yn cael ei wneud sy'n anffurfio neu'n dinistrio coeden, gallai coedwyr y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i waith unioni gael ei wneud neu i blannu coed newydd. Os yw un o goedwyr y Cyngor yn ystyried bod yr amwynder mae coeden llawn-dwf yn ei roi wedi'i ddinistrio, bydd y Cyngor yn gofyn i'r heddlu gynnal ymchwiliad troseddol. Fel arall, gall y Cyngor ddwyn achos sifil yn erbyn y troseddwr am y difrod a wnaed i'r goeden.

## 6.7. | Polisi cynllunio

Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r rhan o'r Cyngor sy'n penderfynu ar geisiadau datblygu ac sy'n gweinyddu'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod coed. Mae rôl yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn un bwysig gan ei bod yn caniatáu i'r Cyngor ymestyn ei amcanion a dylanwadu ar orchudd coed ar dir nad yw'n eiddo iddo. Polisi cynllunio yw un o brif ddulliau Llywodraeth Cymru o weithredu ei rhaglenni cynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae polisi

[23] Cyd-grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol, 2007. Cyfrol 4. *Guidelines for the planning and NJUG Guidelines for the planning, installation and maintenance of utility apparatus in proximity to trees*

cynllunio'n cael ei arwain yn genedlaethol a dylai canllawiau manwl a pholisïau lleol sy'n cael eu llunio gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod yn unol â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Mae Pennod 5.2.10 o Bolisi Cynllunio Cymru[24] yn dweud;

*'Fel y bo'n briodol, dylai awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio eu pwerau i warchod a phlannu coed er mwyn cynnal a gwella golwg cefn gwlad ac ardaloedd adeiledig yn llawn.'*

Yn ystod cyfnod y cynllun, bydd y Cyngor yn cyhoeddi Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn darparu polisïau manwl sy'n ymwneud â choed a choetir sy'n adlewyrchu'r canllawiau cynllunio cenedlaethol diweddaraf. Ar adeg drafftio'r Cynllun (Medi 2017), polisi TWH1 yn y Cynllun Datblygu Unedol yw'r polisi perthnasol sy'n ymwneud â gwarchod coed a choetir trefol.

*TWH1 Datblygiadau sy'n Effeithio ar Goed a Choetir*

*Bydd y Cyngor yn gwarchod coed a choetir a ystyrir yn bwysig i'r tirlun lleol, y treflun a nodweddion bywyd gwyllt rhag datblygiadau. Pan mae egwyddor datblygu sy'n effeithio ar goed neu goetir yn dderbyniol, bydd y Cyngor Sir yn ei gwneud yn ofynnol:*

- *a* *I unrhyw goeden, grŵp o goed neu goetir o werth sydd ar neu wrth ymyl y safle gael eu cadw a bod y datblygiad yn cael ei adeiladu'n sympathetig o'u hamgylch;*
- *b* *I'r asesiad cyn cynllunio o'r coed a'r datblygiad gydymffurfio â'r safon Brydeinig, BS 5837: Trees in Relation to Construction; ac*
- *c* *Os yw torri coed yn cael ei ystyried yn dderbyniol, i goed addas sy'n briodol i gymeriad yr ardal gael eu plannu yn rhywle arall ar y safle.*

Mae Polisi TWH1 wedi'i ategu gan Nodyn Canllaw Cynllunio Ategol 4 Coed a Datblygu a fydd hefyd yn cael ei adolygu yn ystod cyfnod y cynllun ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'n debygol y bydd canllawiau cynllunio cenedlaethol yn cael eu cryfhau yn ystod cyfnod y cynllun i adlewyrchu gofynion cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[25] a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[26]. Yn unol â gofynion cynaliadwyedd canllawiau newydd, gallai canllawiau newydd ei gwneud yn ofynnol i blannu mwy o goed yn lle coed sydd wedi'u torri pan mae hynny'n cael ei ganiatáu ar safleoedd datblygu. Mae cwmpas i ddatblygwyr gyfrannu tuag at blannu coed oddi ar y safle drwy rwymedigaethau cynllunio, pe bai'r Cyngor yn mabwysiadu polisi addas.

Mewn camau diweddarach yn y cynllun a chyda cymorth Cyfoeth Naturiol Cymru, efallai y bydd posib' monitro effaith datblygu ar orchudd coed mewn trefi.

## 6.8. | Gorchmynion Diogelu Coed ac ardaloedd cadwraeth

Gan ddefnyddio deddfwriaeth genedlaethol, mae'r Awdurdod Cynllunio'n creu Gorchmynion Diogelu Coed dan Adran 198 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 pan ystyrir bod coeden neu goed yn rhoi amwynder sylweddol a'i bod yn hwylus gwneud hynny.

---

[24] Llywodraeth Cymru. 2016. Polisi Cynllunio Cymru. Pennod 5: Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir

[25] LlEM, 2015. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[26] LlEM, 2016. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Gall Gorchymyn Diogelu Coed warchod coed unigol, grŵp o goed ac ardal o goed neu goetir dan bedwar gwahanol ddynodiad sydd wedi'u nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn. Oni bai fod eithriadau, mae Gorchymyn Diogelu Coed yn gwahardd torri, dadwreiddio, torri brig, torri canghennau, difrodi bwriadol neu ddinistrio coeden ac arni Orchymyn Diogelu, heb ganiatâd yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fel arfer, coed yn yr amgylchedd adeiledig sydd fwyaf mewn perygl o gael eu torri ac felly mae'r rhan fwyaf o Orchmynion Diogelu Coed yn cael eu gwneud mewn ardaloedd trefol.

Mae'r Cyngor yn gweinyddu Gorchmynion Diogelu Coed yn unol â chanllawiau Cymru sydd wedi'u cynnwys yn Tan10[27] a, lle bo hynny'n berthnasol, yn unol â chanllawiau manylach sydd yn *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice*[28] (yn berthnasol i Loegr yn unig). Mae'r Cyngor yn gweinyddu 376 Gorchymyn Diogelu Coed (ffigwr 2017). Gan ddibynnu ar sut mae Atodlen 1 yn cael ei drafftio, gall un Gorchymyn Diogelu Coed warchod un goeden neu sawl un, grŵp ohonynt neu goetir. Rhwng 2007 a 2011, cynhaliodd Cyngor Sir y Fflint adolygiad ar ei Orchmynion Diogelu Coed gan ddefnyddio cyllid grant Llywodraeth Cymru ac fe arweiniodd hyn at ddiddymu nifer o'r Gorchmynion hŷn, ar ôl iddynt gael eu disodli gan rai mwy newydd a chryno. Mae'r adolygiad wedi galluogi Gorchmynion Diogelu Coed i ddangos pa goed yw'r rhai pwysig yn y sir yn fwy cywir. Mae astudiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru'n awgrymu bod gwaith gwarchod coed effeithiol gan Awdurdodau Cynllunio Lleol wedi cyfrannu at gadw gorchudd coed mewn trefi.

Mae ardaloedd cadwraeth wedi'u dynodi i warchod ardaloedd sydd o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol. Yn Sir y Fflint, mae 32 o ardaloedd cadwraeth sydd yn bennaf yng nghanol trefi neu mewn pentrefi hanesyddol. Yn ogystal â gosod rheolau ychwanegol sy'n rhwystro datblygiadau, mae ardaloedd cadwraeth hefyd yn gwarchod coed ac, er bod rhai eithriadau, mae'n drosedd torri coeden i lawr, torri ei brig, torri ei changhennau, ei dadwreiddio, ei difrodi'n fwriadol neu ei dinistrio heb roi gwybod i'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn ysgrifenedig. Mae'r cyfnod hysbysu o chwe wythnos yn rhoi cyfle i'r Awdurdod Cynllunio Lleol lunio Gorchymyn Diogelu Coed lle mae angen un i ddiogelu'r amwynder mae coeden yn ei greu mewn ardal. Pan mae Gorchymyn wedi'i lunio, ei effaith yw rhoi stop ar y gwaith sydd wedi'i ddisgrifio yn yr hysbysiad rhag parhau. Yn amodol ar eithriadau penodol a lleiafswm maint[29], mae pob coeden sydd o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig wedi'u gwarchod.

Nid oes unrhyw ffi am wneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar goeden ac arni Orchymyn Diogelu Coed, nac am roi hysbysiad i wneud gwaith ar goeden mewn ardal gadwraeth.

Gan fod Gorchmynion Diogelu Coed ac ardaloedd cadwraeth yn gwarchod coed er mwyn amwynder y cyhoedd, yn bennaf, bydd y Cyngor, yn unol ag arfer orau, fel arfer yn cyhoeddi gwaith coed sy'n cynnwys torri coeden i lawr. Mae'r broses ymgynghori'n caniatáu i aelodau lleol, cynghorau cymuned, perchnogion tir cyfagos a'r cyhoedd i roi sylwadau ar gynigion.

Ni fydd y Cyngor fel arfer yn ymgynghori â budd-ddeiliaid pan mae gwaith tocio arfaethedig gan fod effaith bosib' y gwaith ar amwynder yn llawer llai na thorri'r goeden i lawr yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r dull hwn yn galluogi penderfynu ar geisiadau a hysbysiadau am waith tocio mewn llai o amser. Mewn achosion eithriadol, gallai'r Cyngor ymgynghori â budd-ddeiliaid os rhagwelir y bydd y gwaith tocio arfaethedig yn anffurfio coeden ac yn effeithio ar amwynder yn sylweddol.

---

[27] Swyddfa Cymru. 1997. Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 10 Gorchmynion Diogelu Coed

[28] Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog. [tua 2006]. *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice*. LlEM

[29] Adran 10, Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Coed) 1999

Wrth benderfynu ar geisiadau Gorchymyn Diogelu Coed a hysbysiadau ardal gadwraeth, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried y canllawiau cenedlaethol perthnasol a pholisïau cynllunio’r Cyngor ei hun.

Er bod rhai eithriadau, mae'n drosedd torri coeden i lawr, torri ei changhennau, torri ei brig neu ei difrodi'n fwriadol neu ei dinistrio os oes Gorchymyn Diogelu Coed neu reolyddion ardal gadwraeth arni. O gael rhywun yn euog mewn Llys Ynadon, gall mynd yn groes i Orchymyn Diogelu Coed neu ddeddfwriaeth ardal gadwraeth arwain ar ddirwy lefel 4 (cyfwerth â £2,500 ar gyfer 2011). Pan mae coeden yn cael ei thorri i lawr neu ei dinistrio fel arall, gallai rhywun dderbyn dirwy hyd at £20,000 mewn Llys Ynadon. Os yw trosedd sy’n ymwneud â Gorchymyn Diogelu Coed yn mynd ger bron Llys y Goron, gallai dirwy heb derfyn gael ei rhoi[30] a lle credir bod rhywun ar fin mynd yn groes i Orchymyn Diogelu Coed neu i ddeddfwriaeth ardal gadwraeth neu fod y drosedd yn un barhaus, gall y Cyngor geisio gorchymyn llys[31].

Mae gorfodi deddfwriaeth gynllunio’n effeithiol mewn perthynas â gwarchod coed yn hanfodol er mwyn atal difrod ac er mwyn cyflawni amcanion y cynllun. Ar ben hynny, gan fod mynd yn groes i Orchymyn Diogelu Coed a rheolyddion ardal gadwraeth (coed dan Adran 211) yn droseddau, mae angen ymchwilio iddynt yn unol â gofynion tystiolaethol cyfreithiol. I fodloni'r gofyn hwn, mae protocol gorfodi ar gyfer coed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed neu gyfyngiadau ardal gadwraeth (Atodiad 4) yn ffurfio rhan o’r cynllun.

## 6.9. | Amodau cynllunio

Yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth, ni fydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol fel arfer yn dibynnu ar amodau cynllunio i warchod coed yn y tymor hir sy'n deilwng o gael eu gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed[32].

Fodd bynnag, wrth roi caniatâd cynllunio i ddatblygu, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gosod amodau cynllunio i sicrhau bod coed i'w cadw ar safle sy'n cael ei ddatblygu'n cael eu diogelu. Efallai y bydd y math hwn o amod cynllunio’n gofyn am gadw at gynllun cymeradwy o fesurau sy’n gwarchod coed yn gorfforol yn ystod gwaith datblygu neu i waith sy'n agos at y coed gael ei wneud yn unol â Datganiad Dull Coedyddiaeth. Gall amod cynllunio hefyd ei gwneud yn ofynnol i ymgynghorydd coedyddiaeth oruchwylio gwaith sydd wrth ymyl coed. Bydd y mathau cyfarwyddol hyn o amodau cynllunio’n cael eu defnyddio ochr yn ochr â Gorchmynion Diogelu Coed i warchod amwynder y coed mwyaf arwyddocaol yn gynhwysfawr.

## 6.10. | Tirlunio

Mae plannu llwyni, coed a gwrychoedd yn rhan o waith tirlunio ar safleoedd datblygu’n bwysig gan ei fod yn meddalu gwedd y safle ac yn helpu adeiladau newydd i ymdoddi i’r tir o’u hamgylch. Yn benodol, gall plannu coed ddarparu ar gyfer rhai a gollwyd oherwydd gwaith datblygu ac felly gall gynnal y gorchudd coed yn y tymor hir. Bydd safleoedd sydd heb lawer neu ddim nodweddion tirlunio wrth eu datblygu fel arfer yn brin o isadeiledd gwyrdd am oes y datblygiad. Mae hi felly’n hanfodol bod plannu llwyni, coed a gwrychoedd, lle bo hynny’n briodol, yn rhan annatod o’r broses gynllunio.

---

[30] LlEM. 1982. Adran 32(2) Deddf Cyfiawnder 1982

[31] LlEM. 1990. Adran 214A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

[32] Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog [2006]. *Tree Preservation Orders: A Guide to the Law and Good Practice*. LlEM



Llun 11. Nodweddion tirlunio mewn datblygiad manwerthu newydd, y Fflint

Polisi L1 yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir y Fflint yw'r polisi sy'n cefnogi tirlunio ac mae'n nodi;

*Rhaid i ddatblygiad newydd gael ei ddylunio i gynnal neu wella cymeriad a golwg y tirlun.*

Mae'r polisi wedi'i ategu gan Nodyn Canllaw Cynllunio Ategol 4 Tirlunio (a fabwysiadwyd fis Ionawr 2017) a fydd yn cael ei adolygu yn ystod cyfnod y cynllun ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Gan fod Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo isadeiledd gwyrdd, bydd y Cyngor yn llunio polisi ar isadeiledd gwyrdd ac yn darparu canllawiau dilynol i ddatblygwyr. Bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar gynllunio a datblygu isadeiledd gwyrdd ar lefel strategol a, lle bod modd, ar blannu coed ymlaen llaw ar ddatblygiadau mawr. Gall cynlluniau isadeiledd gwyrdd sydd wedi'u cynllunio'n dda ddarparu datrysiadau draenio ar gyfer datblygiadau newydd ac ategu llwybrau teithio llesol.

## 6.11. | Trwyddedau torri coed

Dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 (fel y'i diwygiwyd) mae cyfyngiad ar faint o bren sy'n tyfu y gellir ei dorri ym mhob chwarter blwyddyn heb drwydded torri coed[33]. Mae'r rheolyddion yn cael eu gweinyddu gan Gyfoeth Naturiol Cymru a, gyda rhai eithriadau, yn atal coed sydd heb Orchymyn Diogelu Coed, cyfyngiadau ardal gadwraeth neu gyfyngiadau eraill rhag cael eu torri i lawr. O dro i dro, mae rheolyddion trwydded torri coed yn gorgyffwrdd â'r Gorchymyn Diogelu Coed a'r ddeddfwriaeth ardal gadwraeth ac mae angen i swyddogion o bob sefydliad drafod gyda'i gilydd. Wrth wneud gwaith ar goed ar ei dir ei hun, rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth i reolyddion trwyddedau torri coed a cheisio caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Os daw un o goedwyr y Cyngor yn ymwybodol o waith torri coed y tybir iddo gael ei wneud yn groes i'r Ddeddf Goedwigaeth, bydd manylion yn cael eu hanfon ymlaen at swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru i ymchwilio iddynt.

## 6.12. | Gwrychoedd uchel

Mae'r Cyngor yn gweinyddu deddfwriaeth dan Ran 8 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 sy'n caniatáu i berchennog neu feddiannwr eiddo preswyl wneud cwyn ffurfiol am wrych uchel. Rhaid i'r gwrych fod yn fytholwyrdd (neu o leiaf yn lled-fytholwyrdd), dros ddwy

[33] Cyfoeth Naturiol Cymru. 2017. Torri Coed: Cael Caniatâd

fetr o uchder a chynnwys dwy goeden neu ddau lwyn neu fwy[34]. O ganlyniad, gallai'r ddeddfwriaeth gynnwys llinell o goed.

Cyn y gellir gwneud cwyn, rhaid i'r cymydog geisio datrys yr anghydfod gyda pherchennog y gwrych. Er mwyn parhau'n ddiduedd, ni all swyddogion y Cyngor ymweld ag eiddo cwynwr i weld y gwrych tan mae cwyn ffurfiol wedi'i gwneud.

Os ystyrir bod gwrych yn cael effaith niweidiol ar fwynhad rhesymol y cwynwr o'u heiddo, gall y Cyngor gyflwyno Hysbysiad Adfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwrych gael ei dorri a'i gadw yn is na rhyw uchder penodol.

Mae llai na 10 o gwynion am wrychoedd uchel yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor ymchwilio iddynt bob blwyddyn a dim ond ambell un o'r rhain fydd angen camau adferol. Ar ben hynny, ni all y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i goed sy'n ffurfio 'gwrych' gael eu torri. Tybir felly na fydd gorfodi'r ddeddfwriaeth gwrychoedd uchel yn effeithio ar orchudd coed.

## 6.13. | Rheoliadau gwrychoedd

Mae'r rheoliadau[35] yn gwarchod gwrychoedd a'r rhai sy'n tyfu yng nghefn gwlad yn benodol. Gyda rhai eithriadau, mae dinistrio gwrychoedd yn cael ei reoli drwy system o hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw a gall mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth arwain at erlyniad. Mae'r amryw eithriadau sydd yn y ddeddfwriaeth yn golygu na fydd y rhan fwyaf o wrychoedd sydd mewn ardaloedd trefol yn berthnasol dan y ddeddfwriaeth. O ganlyniad, ni fydd y Rheoliadau'n cael effaith gadarnhaol na negyddol ar orchudd coed trefol.

## 6.14. | Monitro iechyd coed

Mae plâu a chlefydau'n cael eu hystyried i fod yn risg gynyddol i iechyd coed a choetir. Mae symud mwy o nwyddau, deunyddiau a phobl ar draws y byd a newid hinsawdd yn ffactorau sy'n cynyddu'r risgiau i iechyd coed. Bydd coedwyr y Cyngor yn cadw golwg am y plâu a'r clefydau mwyaf acíwt ac yn cysylltu â swyddogion iechyd planhigion ynglŷn â'r ffordd orau o ddelio gyda nhw.

Mae Atodiad 3 yn rhestr sydd newydd ei llunio drwy ymchwil o brif fygythiadau plâu a chlefydau sy'n effeithio neu a allai effeithio ar orchudd coed trefol.

## 6.15. | Bioddiogelwch

Mae'r cynnydd yn nifer y plâu a'r clefydau sy'n effeithio ar goed a choetir trefol yn golygu bod bioddiogelwch yn bwysig iawn. Mae gweithgarwch dynol yn ffactor allweddol yn ymlediad plâu a chlefydau sydd yn y pridd (h.y. mwd) neu ar beiriannau trwm. Mae swyddogion coed, swyddogion coetir a pharcmyn cefn gwlad yn dilyn canllawiau y Comisiwn Coedwigaeth ar bioddiogelwch i'w rhwystro rhag ymledu. Mae'r canllawiau'n argymell sicrhau bod dillad a chyfarpar yn cael ei lanhau'n rheolaidd i osgoi gwasgaru deunydd o safle i safle, cael coed o feithrinfeydd dibynadwy sy'n cyflenwi stoc iach a sicrhau nad oes mwd a manion ar gerbydau. Bydd aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â choetir yn cael eu hannog i ddilyn mesurau bioddiogelwch sy'n berthnasol i'r risg ac yn unol â chyngor ar arfer orau.

Yn ogystal â bod yn anghyfrifol ac anghyfreithlon, mae tipio gwastraff gardd yng nghefn gwlad yn cynyddu'r risg o blâu a chlefydau. Mae risg o gyflwyno planhigion ymledol hefyd.

---

[34] LlEM. 2003. Paragraff 66, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003

[35] LlEM. 1997. Rheoliadau Gwrychoedd 1997

## 7.0 | Amcan 3 - Rheoli’r risgiau sydd ynghlwm â choed

Fel perchnogion tir eraill, mae dyletswydd i ofalu ar y Cyngor dan y Ddeddf Atebolrwydd Meddianwyr[36] i sicrhau nad yw’n esgeulus, o ganlyniad i weithredu neu beidio â gweithredu. Er eu bod yn organebau byw deinamig, sy'n tyfu'n naturiol cyn dirywio, mae'r ddyletswydd i ofalu yng nghyfraith y DU yn cynnwys coed.

Mae’r risg o farw neu gael anaf o ganlyniad i goeden yn disgyn yn aml yn cael ei chwyddo. Credir bod hyn oherwydd bod gormod o adroddiadau am achosion o’r fath yn y cyfryngau, a hynny, debyg, gan eu bod yn cael eu hystyried yn ddamweiniau anghyffredin ac yn deilwng o fod ar y newyddion[37]. Yn ôl yr ystadegau, mae’r risg o gael eich lladd gan goeden neu gangen sy’n disgyn sydd mewn ardal sy’n cael ei defnyddio gan y cyhoedd yn hynod o isel[38].



Llun 12. Derwen llawn-dwf yn dirywio sy’n cael ei harchwilio’n aml

)rwy ei Bolisi a'i Strategaeth Rheoli Risg[39], nae’r Cyngor yn ymrwymo i ganfod, ;werthuso a rheoli pob risg yn effeithiol, gan ;ynnwys iechyd a diogelwch sef y categori isg sy'n gysylltiedig â choed yn disgyn. Pe bai :oeden yn methu, mae'r Cyngor yn cydnabod ' gallai’r canlyniadau fod yn rhai trasig, ond ni ellir chwaith gael gwared â phob risg, felly dylid ymdrin â digwyddiadau'n gymesur.

 gynorthwyo coedwyr y Cyngor i reoli risg, nae dulliau Asesu Risg Coed yn cael eu lefnyddio i sicrhau bod coed yn cael eu narchwilio a'u rheoli i adlewyrchu eu lefel o isg. Mae Asesiadau Risg Coed yn ystyried pa nor agos yw targedau (e.e. pobl, eiddo) i goeden sydd ar ei thraed, y perygl (e.e. :angen, y goeden gyfan, brigau marw), yr effaith pe bai'n methu (niwed neu ddifrod), n ogystal â pha mor debygol yw o fethu, i benderfynu ar ba gamau adferol y mae eu hangen, os oes.

Mae’r dull hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn defnyddio ei adnoddau’n effeithiol. Mae coed mawr sydd wrth ochr cefnffyrdd mawr yn cael eu harchwilio bob blwyddyn ac nid oes archwiliadau'n cael eu cynnal ar rai coed gan na fyddent yn achosi difrod na niwed hyd yn oed pe baent yn methu. I gynorthwyo’r dull hwn sy’n ystyried y risg, mae’r Cyngor yn defnyddio system reoli coed gyfrifiadurol sy’n defnyddio system gwybodaeth ddaearyddol. Mae'r system

---

[36] LlEM. 1957 a 1984. Deddf Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984.

[37] Grŵp Cenedlaethol Diogelwch Coed. 2011. *Common sense risk management of trees*. Cyhoeddiadau’r Comisiwn Coedwigaeth

[38] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. 2013. *Management of the risk of falling trees or branches*. Ar gael ar: http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/sims/ag_food/010705.htm#Summary [Defnyddiwyd 6 Medi 2017]

[39] CSyFf. 2016. Polisi a Strategaeth Rheoli Risg - Fersiwn 4

gyfrifiadurol yn ein galluogi i drefnu i ailarchwilio ar gyfnodau penodol yn seiliedig ar risg y goeden.

Mae'r Cyngor, fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol, hefyd yn defnyddio dulliau Asesu Risg Coed i asesu cynigion i wneud gwaith ar goed gwarchodedig yr honnir nad ydynt yn ddiogel.

## 7.1. | Priffyrdd

Fel yr Awdurdod Priffyrdd, gall y Cyngor, drwy rybudd ffurfiol, ei gwneud yn ofynnol i berchennog coeden (neu lystyfiant o unrhyw fath) ei thorri neu ei thocio os yw'n rhwystro cerbydau rhag mynd heibio[40].

Bydd Swyddog Goruchwyliol Strydwedd a Phriffyrdd y Cyngor yn asesu graddau'r amhariad neu'r rhwystr cyn penderfynu pa gamau adferol y mae eu hangen, os oes. Rhwng canol Mawrth a diwedd Awst, bydd swyddogion yn ystyried y warchodaeth gyfreithiol a roddir i adar sy'n nythu wrth benderfynu faint o waith torri sydd ei angen i gael gwared â'r perygl. Bydd swyddog fel arfer yn ymweld â pherchennog neu feddiannwr y tir ac yn cael gwybod am bryder y Cyngor cyn cymryd camau ffurfiol.

Mae angen 2.4m o le uwchben llwybr cerdded a 5.2m uwchben ffordd gerbydau. Wrth dorri llystyfiant dros y briffordd, bydd perchnogion a thrinwyr coed yn cael eu cynghori i ganiatáu am gyfnod o dwf newydd ac i'r canghennau hongian yn is dros y ffordd yn ystod tywydd gwlyb. Dylai gwaith coed ar y briffordd gyhoeddus gydymffurfio â *Safety at Street Works and Road Works – A Code of Practice*[41].

Os oes gwrych, coeden neu lwyn wedi marw, â chlefyd, wedi'i ddifrodi neu heb wreiddio'n iawn ac yn debygol o achosi perygl drwy ddisgyn ar y briffordd, gall y Cyngor, drwy roi rhybudd ffurfiol i'r perchennog, ei gwneud yn ofynnol iddo gael gwared â'r perygl drwy docio neu dorri[42].

Gellir rhoi gwybod am goed peryglus wrth ochr y briffordd i'r tîm Strydwedd a byddant yn cael eu hasesu gan ddefnyddio dull Asesu Risg Coed i bennu a oes angen camau adferol. Pan mae coeden yn cael ei asesu fel risg annerbyniol i ddefnyddwyr y briffordd, bydd y Cyngor yn mynnu bod y perygl yn cael ei ddiddymu, drwy rybudd ffurfiol os oes rhaid.

Os na roddir rhybudd ffurfiol, gall y Cyngor neu gontractwyr ar ran y Cyngor fynd ar y tir a gwneud y gwaith a nodir yn y rhybudd. Mae'n annhebygol y bydd gwrych neu lwyn yn achosi perygl drwy ddisgyn ar y briffordd. Wrth arfer ei bwerau, bydd y Cyngor yn ystyried rhywogaethau a warchodir, ac ystlumod yn enwedig, cyn penderfynu ar y ffordd orau o weithredu.

Os oes coeden yn disgyn i'r ffordd o dir cyfagos a'i bod yn achosi rhwystr ar y briffordd, gall y Cyngor gymryd camau i adennill y gost o glirio'r briffordd gan berchennog y tir yr oedd y goeden arni.

## 7.2. | Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor ddelio â choed ar dir sy'n berygl[43] i berchennog neu feddiannwr tir cyfagos. Mae'r Cyngor yn derbyn sawl ymholiad gan aelodau'r cyhoedd yn

---

[40] Adran 154 (1) Deddf Priffyrdd 1980 LlEM

[41] Gweinidogion Cymru. 2003. *Safety at Street Works and Road Works – A Code of Practice*.

[42] Adran 154 (2) Deddf Priffyrdd 1980. LlEM

[43] Adran 23 (1) (b) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. LlEM

honni bod coeden cymydog yn beryglus, ond ychydig iawn o'r honiadau hyn sydd ag unrhyw sail iddynt.

Felly, dylai unrhyw berson sy'n honni bod coeden ar dir cymydog yn beryglus ofyn am gyngor coedyddiaeth annibynnol ynglŷn â chyflwr y goeden a/neu roi gwybod i berchennog y goeden am eu pryder cyn rhoi gwybod am y mater i'r Cyngor i ymchwilio iddo.

Bydd gan goeden sy'n cael ei hystyried yn beryglus, yn ôl diffiniad y Ddeddf, wendid sy'n ddigon sylweddol i'w gwneud yn debygol iawn y bydd yn methu'n fuan ac y byddai wedyn yn achosi niwed neu ddifrod i'r perchennog/meddiannwr cyfagos a'u heiddo. (Gallai enghreifftiau gynnwys gwreiddiau'n codi, coeden yn gorffwys ar goeden gyfagos, canghennau mawr yn hongian neu hollt mewn rhan allweddol o'r boncyff, fforch neu brif gangen).

Dylid rhoi gwybod am goed peryglus i'r Cyngor yn ysgrifenedig a, lle bo hynny'n briodol, cynnwys ffotograffau o'r goeden ac adroddiad coedyddiaeth. Bydd coedwyr y Cyngor yn defnyddio dull Asesu Risg Coed i bennu graddau'r perygl ac a ddylid defnyddio pwerau'r Cyngor. Wrth arfer ei bwerau, bydd y Cyngor yn ystyried rhywogaethau a warchodir. Mae'r pŵer hefyd i'w arfer yn ôl disgresiwn ac nid oes raid i'r Cyngor weithredu hyd yn oed pan mae'r gofynion yn y Ddeddf wedi'u bodloni[44].

[44] Adran 23 (1) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. LlEM


# 8.0 | Amcan 4 - Hyrwyddo bioamrywiaeth

Mae Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016[45] yn rhoi dyletswydd benodol ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau. Dan y Ddeddf, mae gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru gyhoeddi 'datganiadau ardal' yn trafod adnoddau naturiol, y buddion maent yn eu darparu a'r blaenoriaethau, risgiau a'r cyfleoedd mae angen mynd i'r afael â nhw i'w rheoli'n gynaliadwy. Ar ben hynny, rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru nodi pa gyrff cyhoeddus all gynorthwyo i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau.

Mae Cynllun Cyflawni Dyletswydd Fioamrywiaeth Adran 6 Sir y Fflint[46] yn canolbwyntio ar y chwe amcan i adfer natur yng Nghymru[47] sy'n cynnwys diogelu rhywogaethau a chynefinoedd hanfodol bwysig, yn ogystal ag adfer a chreu cynefinoedd, fel coetir, i wella gwytnwch ein hamgylchedd naturiol.

Mae coed yn rhan hanfodol o fioamrywiaeth gyda thros 284 o wahanol rywogaethau o bryfed a 324 rhywogaeth o gen yn dibynnu ar goed derw brodorol[48]. Coed hŷn yn benodol sydd o werth mwyaf i fywyd gwyllt.

Mae nifer o rywogaethau sy'n hollbwysig i warchod amrywiaeth fiolegol yn ddibynnol ar neu'n gysylltiedig â choed a choetir. Mae'r rhywogaethau hyn yn cynnwys pathewod, madfallod dŵr cribog, ystlumod a moch daear yn ogystal â sawl rhywogaeth adar, infertebrata, cen, mwsogl a llysiau'r afu.


Llun 13: Coeden sy'n pydru gyda photensial fel clwydfan ystlumod

Mae perllannau traddodiadol, porfeydd coediog a pharcdir, ucheldir coed derw mes di-goes, coetir gwlyb, iseldir coed collddail cymysg a gwrychoedd yn gynefinoedd sy'n hollbwysig i warchod amrywiaeth fiolegol yng Nghymru. Prif amcan y Cyngor wrth reoli coetir o'r fath fydd diogelu a gwella eu bioamrywiaeth. Mae coetir yn rhan bwysig o gynefinoedd ar sawl safle gwarchodedig ar draws y sir, gan gynnwys ardaloedd o gwmpas trefi. Mae nifer sylweddol o safleoedd madfallod dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig Glannau Dyfrdwy a Bwcle'n goetir sy'n gynefin tir pwysig i fadfallod dŵr cribog. Mae coetir ym Mharc Gwepra wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig am ei goetir derw mes di-goes.

I gynorthwyo â'r nod hwn, bydd coetir sydd wedi'i ddynodi'n ardal cadwraeth

[45] LlEM, 2016. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

[46] CSyFf, (yn cael ei lunio) Cynllun Cyflawni Dyletswydd Fioamrywiaeth Adran 6 Sir y Fflint

[47] Llywodraeth Cymru, 2015. Cynllun Adfer Natur Cymru 'Gosod y trywydd ar gyfer 2020 a'r tu hwnt'

[48] Ymddiriedolaeth Coetir a Bywyd Gwyllt Offwell.[Dim dyddiad] Ar gael ar: http://www.countrysideinfo.co.uk/woodland_manage/tree_value.htm [Defnyddiwyd 6 Medi]

arbennig yn cael ei reoli yn unol â'r Cynllun Rheoli Craidd ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Safleoedd Madfallod Dŵr Glannau Dyfrdwy a Bwcle[49]. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r corff statudol, Cyfoeth Naturiol Cymru, i gyflawni'r nod hwn. Bydd coetir sy'n llai bioamrywiol ac nad yw wedi'i ddynodi'n gynefin gwarchodedig yn cael ei reoli'n briodol i wella'r amrywiaeth o rywogaethau sydd yno.

Yn y DU, mae pob rhywogaeth o ystlumod a'u clwydfannau wedi'u diogelu dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac mae gan yr ystlum pedol lleiaf yn benodol gadarnle yng nghoetir y sir. Bydd ceisiadau i docio neu dorri coed sydd â thyllau, holltau, cilfachau a/neu iorwg tew yn cael eu hasesu yn ôl eu haddasrwydd i gefnogi ystlumod yn unol â'r canllawiau perthnasol[50 51].

## 8.1. | Coed hen a hynafol

Coed hynafol yw'r rhai sydd wedi cyrraedd oedran mawr wrth ystyried oes arferol y rhywogaeth. Credir bod mwy o goed hynafol ym Mhrydain nag yn unrhyw wlad arall yng Ngogledd Ewrop[52].

Hen goed fel arfer fydd coed hynaf (hynafol) y rhywogaeth honno ond bydd ganddynt nodweddion fel bonion mawr, ceudyllau, llawer o bren marw, canghennau wedi disgyn a choron yn cilio sy'n gysylltiedig â dirywiad. Oherwydd eu hamryw nodweddion, mae hen goed yn cynnal amrywiaeth eang o ffyngau a phryfed.

Mae gan Ysgol Bryn Gwalia yn yr Wyddgrug dderwen goesynnog hynafol yn tyfu ar ei thir sy'n 8.3 metr o amgylch y bonyn, y fwyaf y gwyddom amdani yn Sir y Fflint. Y dderwen yw arwyddlun yr ysgol a'r amcangyfrif cywiraf o oedran y goeden gan ddefnyddio dull White[53] yw 774 oed. Er gwaethaf oedran y dderwen, mae'n rhyfeddol o unffurf a chryf ac oherwydd hynny nid oes nodweddion hen goeden arni.



Llun 13. Derwen hynafol yn Ysgol Bryn Gwalia, yr Wyddgrug



Llun 14. Gwaelod y dderwen hynafol yn Ysgol Bryn Gwalia

[49] Cyngor Cefn Gwlad Cymru. 2008. *Core Management Plan for Deeside and Buckley Newt Sites SAC*. Ar gael ar: https://www.naturalresources.wales/media/671740/Deeside_and_Buckley_WES32_Plan_English.pdf [Defnyddiwyd 6 Medi 2017]

[50]BCT. 2015. *Bats and Trees*. Bat Conservation Trust. Ar gael ar: http://www.bats.org.uk [Defnyddiwyd 6 Medi 2017]

[51]Sefydliad Safonau Prydain. [Dim dyddiad]. *Micro guide to surveying for bats in trees and woodlands, An introduction to BS8596 for non-specialists*. Ar gael ar: http://shop.bsigroup.com/upload/273444/BSI-Bat-Microguide-UK-EN.pdf. [Defnyddiwyd 6 Medi 2017]

[52] Ancient Tree Forum, (Dim dyddiad) *Working for the future of our ancient trees*

[53] White, J. 1998. *Estimating the Age of Large and Veteran Trees in Britain*. Y Comisiwn Coedwigaeth

Cyfyngedig yw'r warchodaeth statudol y gellir ei rhoi i hen goed a byddai'r cynllun yn cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth sy'n gwarchod coed sydd â nodweddion hen goeden yn well. (Mae Grŵp Tasg a Gorffen sydd wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru wedi edrych ar wendidau'r ddeddfwriaeth gyfredol).

Mewn lleoliad trefol, mae'n bwysig nad yw coed hynafol yn cael eu tocio na'u torri yn rhan o or-reoli risg coed. Bydd risg coed sydd â gwendidau ar ffurf nodweddion hen goed yn cael ei hasesu'n ofalus. Bydd symud targedau oddi wrth goed peryglus yn cael ei asesu fel dewis cyn ystyried gwaith adferol ar goed.

# 9.0 | Amcan 5 - Gweithio mewn partneriaeth

Cydnabyddir nad yw'r Cyngor yn debygol o gyrraedd ei darged gorchudd coed heb weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Ni fyddai modd paratoi'r cynllun heb astudiaethau a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sydd wedi darparu gwybodaeth feincnodi ar orchudd coed mewn trefi.

Bydd partneriaid i gyflawni'r cynllun yn cynnwys cynghorau tref a chymuned a gallai Coed Cadw hefyd fod yn bartneriaid. Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad eisoes wedi creu partneriaethau gwaith da ac mae'n rheoli coetir yng Nghastell Caergwrle ar ran y cyngor cymuned.



Llun 14. Gwirfoddolwyr yn plannu coed perllan yn Llwyni ar gyrion Cei Connah.

Mae fel arfer angen ymgysylltu â'r gymuned yn effeithiol i gael cyllid grant a gall olygu bod cynnig am grant yn llwyddo neu'n methu.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol a dylai fod yn broses bwysig, gan gyfuno uchelgeisiau a phryderon y gymuned yn y cynllun.  Hyd yn oed os yw'r targed gorchudd coed o 18% yn cael ei gyrraedd, mae gweledigaeth y cynllun o orchudd coed sy'n cael ei werthfawrogi'n llawer llai tebygol o gael ei wireddu os yw wedi'i wneud heb fawr neu heb ddim gwaith ymgysylltu â'r gymuned.

Wrth lunio cwmpas cynlluniau plannu coed, bydd swyddogion y Cyngor yn gwneud gwaith mapio cyn cyflwyno cynigion drafft i'r gymuned roi eu barn arnynt. Ar ôl cael adborth gan y gymuned a budd-ddeiliaid eraill, bydd fersiynau terfynol y cynlluniau plannu coed yn cael eu llunio cyn eu gweithredu.


Mae sawl ffordd o ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys arolygon, rhoi taflenni, digwyddiadau cymunedol, cyfarfodydd a gweithdai. Ystyrir yn aml mai trafodaethau wyneb yn wyneb yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ymgysylltu â'r gymuned mewn modd ystyrlon ac felly bydd swyddogion yn trefnu i gyfarfod â grwpiau (e.e. cynghorau tref a chymuned, grwpiau amgylcheddol, grwpiau mynediad) yn ogystal ag ymgynghori ag aelodau'r ward. Gellir hefyd gosod stondin mewn digwyddiadau cymunedol (e.e. Diwrnod Mawr Dyfrdwy) sy'n cael ei

drefnu gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad. Bydd y modd o ymgysylltu â'r gymuned yn gymesur â graddau'r cynigion.

Mae gan y Gwasanaeth Cefn Gwlad brofiad helaeth o weithio gyda gwirfoddolwyr o bob oed a chefndir sy'n gwneud ystod o weithgareddau, gan gynnwys plannu coed. Mae cyfranogiad y cyhoedd yn galluogi'r gymuned ac yn ennyn balchder, sy'n arwain at well cynnal a chadw a llai o fandaliaeth.

Mae nifer o gwmnïau mawr lleol a chenedlaethol (e.e. Airbus Kimberly-Clark, Kingspan, McDonalds, Tate & Lyle, Tesco) yn trefnu diwrnodau gwirfoddoli corfforaethol i wneud prosiectau i wella'r amgylchedd, wedi'u trefnu gan y Cyngor. Mae cyfle i ddatblygu'r rhwydwaith gwirfoddoli ymhellach ac ehangu eu gwaith i blannu coed ar dir nad yw'n cael ei reoli gan y gwasanaeth Cefn Gwlad.

Nod y cynllun yw bod yn ddogfen allweddol i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru y mae disgwyl iddynt fod ar gael yn y dyfodol. O dro i dro, bydd cyllid grant i blannu coed ar gael ar fyr rybudd a bydd y cynllun yn gallu nodi safleoedd addas i'w plannu ar fyr rybudd.


Llun 15. Coed wedi'u plannu drwy Treegeneration yn y Fflint

Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cael cyllid gan y Comisiwn Coedwigaeth i blannu coetir cymunedol ac roedd yn rhan o brosiect partneriaeth yng Ngogledd-ddwyrain Cymru o'r enw Treegeneration a oedd yn darparu Cyllid y Comisiwn Coedwigaeth i blannu coed a choetir trefol.

Yn 2013, darparodd Llywodraeth Cymru £35,000 o gyllid yn rhan o'r grant Mannau Mwy Glân, Gwyrdd a Heddychlon i gyflawni dau gynllun plannu coed yn y Fflint (llun clawr) ac ym Mharc Gwepra. Roedd cyllid cyfalaf Parc Gwepra'n cael ei gyfateb i raddau gan fod swyddogion a gwirfoddolwyr yn plannu'r coed.

Ar adeg drafftio'r cynllun, mae ansicrwydd ynglŷn â dyfodol holl grantiau Llywodraeth Cymru. Er hynny, mae'n amlwg bod cynaliadwyedd yn un o brif ymrwymiadau polisi Llywodraeth Cymru a disgwylir y bydd cyllid cyfalaf ar gael yn y dyfodol i gyrraedd targed y cynllun, un ai'n uniongyrchol neu drwy grantiau Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Gwasanaeth Cefn Gwlad wedi llwyddo i gael nawdd gan Airbus, Kimberley-Clarke a Bourne Leisure i reoli ei safleoedd. Ar ôl cyhoeddi'r cynllun, bydd y Cyngor yn ceisio cael cyllid nawdd. (Mae cyllid cyfalaf eisoes wedi'i sicrhau am dair i bum mlynedd gyntaf y cynllun). Bydd cyllid gan noddwyr yn cael ei neilltuo i dalu am blannu coed a chostau sefydlu, a fyddai'n ei wneud yn fwy deniadol i fusnesau a allai fod yn amharod i ariannu gwaith coed cyffredinol.

# 10.0 | Adnoddau a chyflawni

Mae cyllid cyfalaf, drwy rwymedigaethau cynllunio, wedi'i sicrhau i gyflawni rhaglen plannu coed, i gyrraedd targed y cynllun a chyflawni Amcan 1, rhwng trydedd a phumed flwyddyn gyntaf y cynllun. Mae'r cyllid hwn wedi'i neilltuo ac ni all gael ei ddefnyddio i reoli coed presennol y Cyngor. Mae'r adnoddau y bydd eu hangen i gynllunio, ymgynghori ar a chwblhau gwaith plannu yn dod o adnoddau staff presennol.

Mae'r amryw opsiynau am gyllid cyfalaf ychwanegol wedi'u hystyried ym Mhennod 9 a byddai modd cael y cyllid drwy grantiau a/neu nawdd. Ar yr adeg pan mae'r cynllun yn cael ei ddrafftio'n derfynol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid yng Nghronfa Gyfalaf Isadeiledd Gwyrdd ar gyfer y cyfnod 2017-2021.

Bydd costau cynnal parhaus yn dod o gyllidebau presennol cynnal a chadw tir y Cyngor. Mae rheoli coed ifanc a choed sy'n tyfu yn defnyddio adnoddau yn debyg i reoli glaswellt sy'n cael ei dorri, ac maent yn llai mewn perthynas â choetir. Mae ad-drefnu gwasanaethau'r Cyngor wedi darparu arbedion wrth reoli coed y Cyngor a bydd mabwysiadu cynlluniau lladd gwair mwy effeithlon o amgylch coed wedi'u plannu'n lleihau costau.

Mae amcanion 2 i 5 yn ymwneud â pholisi ac nid oes angen cael cyllid cyfalaf ar eu cyfer er y bydd goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer swyddogion a fydd yn cael eu diwallu gan ddefnyddio adnoddau staff presennol.

Mae amserlen i gyflawni tasgau'r cynllun a'u gwerthuso ynghlwm yn Atodiad 1. Mae'r amserlen yn cynnwys adroddiad yng nghanol cyfnod y cynllun ym mlynyddoedd 7 i 9.

## Atodiad 1 – Amserlen gyflawni

| Amserlen gyflawni | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Amcan | Blynyddoedd | | | | | |
| | | 1-3 | 4-6 | 7-9 | 10-12 | 13-14 | 15 |
| 1 i 5 | Pob un | | | Adroddiad canol cyfnod<br>I gynnwys adolygiad o amcanion y cynllun a chynnydd ar gyrraedd y targed gorchudd coed | | | |
| 1 | Cynyddu faint o goed sy'n cael eu plannu | Ymarfer mapio, gwaith maes ac ymgynghori ar gyfer ardal beilot Cei Connah | Plannu coed mewn ardal beilot Adolygu arferion rheoli tir i roi ystyriaeth i blannu coed | Gwerthuso a chynnal | Cynnal | Monitro | Asesu llwyddiant yn ôl y targed gorchudd coed mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru<br><br>Cyfrif nifer, rhywogaethau, meintiau coed ifanc a'r darn o goetir a blannwyd<br><br>Cyfrifo cyfraddau goroesi<br><br>Nodi llwyddiannau a methiannau allweddol gyda rhesymau |
| | | | Ymarfer mapio, gwaith maes ac ymgynghori i dargedu Brychdyn a Saltney sydd â'r ganran leiaf o orchudd coed | Plannu coed. Adolygu arferion rheoli tir i roi ystyriaeth i blannu coed | Gwerthuso a chynnal | Cynnal | |
| | | | Ymarfer mapio, gwaith maes ac ymgynghori ar gyfer mannau agored ffurfiol ac anffurfiol a choridorau cludiant | Plannu coed. Adolygu arferion rheoli tir i roi ystyriaeth i blannu coed | Gwerthuso a chynnal | Cynnal | |
| | | | | Gwerthuso potensial coed ar dir arall sy'n eiddo i'r Cyngor | Plannu coed. Adolygu arferion rheoli tir i roi ystyriaeth i blannu coed | Gwerthuso a chynnal | |
| | | Drafftio polisi isadeiledd gwyrdd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol a chanllawiau | | | | | Asesu llwyddiant y polisi gan ddefnyddio'r targed gorchudd coed a mesuryddion eraill |
| 2 | Rheoli coed yn gynaliadwy | Cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun ar dudalennau gwe'r Cyngor | | | | | Asesu llwyddiant yn ôl y targed gorchudd coed mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru |
| | | Paratoi cynlluniau rheoli coetir penodol i safleoedd ar gyfer coetir mewn parciau gwledig a choetir partneriaid | Rheoli coetir | | | | |

| Amserlen gyflawni | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Amcan | Blynyddoedd | | | | | |
| | | 1-3 | 4-6 | 7-9 | 10-12 | 13-14 | 15 |
| | | | Drafftio polisïau i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer coed a thirlunio<br>Cynnal gwerthusiad o bolisi a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i ariannu gwaith plannu coed newydd os oes coed yn cael eu torri i lawr er mwyn gwaith datblygu | | | | |
| | | Ehangu'r gronfa ddata o goed ar system rheoli coed gyfrifiadurol | | | Ymgymryd â phrosiect i-Tree Eco yn seiliedig ar well cronfa ddata o goed | | |
| | | Monitro effeithiolrwydd Gorchmynion Diogelu Coed a phenderfyniadau ardal gadwraeth wrth gyflawni'r amcan | | | | | |
| | | | | | Monitro colled neu gynnydd net o ran gorchudd coed o ganlyniad i ddatblygu ac amrywiaeth dosbarth oed | | |
| | | Dilyn protocol gorfodi cynllunio i ymchwilio i droseddau honedig yn erbyn Gorchmynion Diogelu Coed a (choed) ardaloedd cadwraeth | | | | | |
| | | Monitro lledaeniad clefyd coed ynn yn y sir a'r risg o ganlyniad i gyrraedd targed y cynllun | | | | | |
| | | Cynnal adolygiad o ddatblygiad parhaus iechyd coed | | | | | |
| 3 | Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â choed | Cyhoeddi gwybodaeth am y cynllun ar dudalennau gwe'r Cyngor | | | | | Gwerthuso gan ddefnyddio cofnodion archwiliadau |
| | | Cynnal archwiliadau cylchredol ar gyfer coed sydd wedi'u nodi a gwneud gwaith sydd wedi'i nodi ar goed | | | | | |
| | | Monitro ymyraethau a oedd yn ymateb i ddeddfwriaeth am goed peryglus | | | | | |
| | | Ystyried systemau rheoli coed eraill sy'n seiliedig ar system gwybodaeth ddaearyddol | | | | | |
| | | Cofnodi coed newydd yn y gronfa ddata ar reoli coed mewn ymateb i gyfrifoldebau newydd a lefel risg coed | | | | | |
| 4 | Hyrwyddo bioamrywiaeth | Nodi meysydd sy'n cyd-fynd â Chynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth | Cyflawni tasgau ar y cyd sydd wedi'u nodi yn y cynllun a Chynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth | | | | Gwerthuso cyfraniad y cynllun i Gynllun Cyflawni'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth |
| | | Gydag arweiniad Llywodraeth Cymru, datblygu deddfwriaeth i warchod hen goed yn well | | | | | |
| 5 | Gweithio mewn partneriaeth | Annog a datblygu cyswllt â'r cyhoedd ynghyd ag amcanion eraill y cynllun | | | | | Gwerthuso cyswllt â'r gymuned, partneriaethau, nawdd a chyllid grantiau |
| | | Edrych ar gyfleoedd am nawdd gan fusnesau a'u datblygu | | | | | |
| | | Monitro ffynonellau cyllid grantiau ar gyfer grantiau cymwys | | | | | |

## Atodiad 2 - Ffactorau sy'n effeithio ar orchudd coed mewn trefi

| Ffactorau sy'n effeithio ar orchudd coed | |
|---|---|
| Cynyddu | Lleihau |
| Plannu coed a gofalu amdanynt | Torri coed, yn enwedig coed â changhennau hir |
| Aildyfiant naturiol | Diffyg plannu coed yn lle rhai sy’n cael eu torri |
| Isadeiledd gwyrdd mewn datblygiadau newydd | Colli coed oherwydd gwaith datblygu |
| Cyllid grant sydd ar gael i gefnogi gwaith plannu | Peidio â gwerthfawrogi coed fel ased gyfalaf |
| Cynllun ar gael i reoli adnoddau | Polisïau gwan a gwarchodaeth wael i goed |
| Fframwaith deddfwriaethol cryf ac effeithiol i goed | Plâu a chlefydau (e.e. clefyd coed ynn, clefyd llwyfen yr Isalmaen) |
| Deddfwriaeth rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir | Gorofal wrth asesu risg coed |
| Gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol | Gweithio’n dameidiog |

## Atodiad 3 - Bygythiadau plâu a chlefydau

### Clefyd Coed Ynn

Mae clefyd coed ynn (*Hymenoscyphus fraxineus*) wedi ymledu o Orllewin Lloegr i Sir y Fflint ac mae'n fygythiad gwirioneddol i goed ynn cyffredin brodorol y sir (*Fraxinus excelsior*) sy'n rhagori ar y pridd calchaidd ac sy'n cyfrif am bron i 15% o holl goetir llydanddail y DU. Yn ardaloedd trefol Sir y Fflint, coed ynn cyffredin yw un o'r rhywogaethau amlycaf.

Mae coed ifanc yn benodol agored i ddal y clefyd ac maent yn marw'n fuan, ac mae coed ar eu llawn-dwf yn cael eu heffeithio i wahanol raddau a gallent ddirywio dros sawl blwyddyn.

Wrth lunio'r cynllun hwn, nid yw'n eglur pa effaith hirdymor y bydd clefyd coed ynn yn ei gael ar orchudd coed. Yn yr achos gwaethaf, gallai'r clefyd fod yn rhwystr i gyrraedd y targed gorchudd coed. Mae cyfyngiadau hefyd wedi'u rhoi ar gyflenwi coed ynn i'w plannu. Mae hyn yn golygu na ellir plannu rhywogaeth frodorol werthfawr a chyffredin iawn mewn ardaloedd trefol.

### Dirywiad Derw Acíwt

Mae hwn yn dod yn fwy o fygythiaf i dderw ac mae'n effeithio ar ddwy rywogaeth frodorol Prydain o goed derw, derw mes coesynnog (*Quercus robur*) a derw mes di-goes (*Q. petraea*), yn ogystal â rhywogaethau eraill o dderw.

### Clefyd Llwyfen yr Isalmaen

Achoswyd y pwl yn y 1970au gan ffwng newydd a llawer mwy ymosodol (*Ophiostoma Novo-ulmi*) a fewnforiwyd i Brydain ar goed llwyfenni heintus ac a ledaenwyd gan chwilod rhisgl y llwyfen. O fewn degawd, roedd tua 20 miliwn o goed llwyfenni o amcangyfrif o 30 miliwn drwy'r DU wedi marw. Bu bron i goed llawn-dwf a fu unwaith yn gadarn a chyffredin iawn ddiflannu. Dim ond ambell lwyfen ar eu llawn-dwf sydd wedi goroesi yn y sir. Mae clefyd llwyfen yr Isalmaen yn dal yn endemig yn Sir y Fflint ac yn atal y rhywogaeth rhag dod ati ei hun.

### Lindys Dail Castanwydd

Mae'r pla a'r pryfyn estron hwn wedi ymsefydlu yn y sir, gan ymledu'n raddol ar draws Lloegr o Wimbledon, lle daethpwyd o hyd iddo gyntaf yn 2002. Mae larfau'r gwyfyn yn bwyta y tu mewn i ddail castanwydd gan eu troi'n frown fel pe bai'r goeden yn marw ac yn anffurfio gwedd y goeden. Mae'r gastanwydden (*Aesculus hippocastanum*) neu'r goeden goncyrs yn aml yn goeden fawr mewn parciau a gerddi sy'n werthfawr am ei blodau a'i ffrwythau. Yn ffodus, nid yw'r pla'n lladd y goeden ac mae modd ei reoli drwy gasglu dail sydd wedi disgyn yn yr Hydref a'u compostio. Mae hyn yn lladd chwilerod dros y gaeaf a fyddai fel arfer yn ailheintio'r goeden y flwyddyn wedyn.

### Cancr Diferol Castanwydd

Dyma glefyd sy'n arwain at friwiau marw ar risgl coed castan wedi'u hachosi gan facteriwm. Mae'n eu hanffurfio, yn effeithio coed ifanc a gall eu lladd. Gan fod cymaint o lindys dail castanwydd a chancr diferol yn Sir y Fflint, nid yw coed castan yn addas i'w plannu tan fydd rhai ar gael sy'n gallu gwrthsefyll y pla a'r clefyd.

### Phytophthora alni

Cafodd y clefyd hwn ei ddarganfod ym Mhrydain ym 1993 ac mae'n effeithio ar goed gwerni (*Alnus glutinosa*) sy'n goed cyffredin iawn ar hyd afonydd Alun a Chwiler yn ogystal â chyrsiau dŵr culach fel Afon Nant y Fflint yn y Fflint a Nant Gwepra yng Nghei Connah. I ddechrau, mae'r clefyd yn lladd dail ar frig canghennau'r goron ar ôl i'r boncyff gael ei heintio. Gall effaith y clefyd amrywio, hyd yn oed ymysg coed sy'n tyfu wrth ymyl ei gilydd. Mae'r clefyd yn aml yn lladd y coed.

Phytophthora lateralis

Cafwyd hyd i’r clefyd *P. Lateralis* gyntaf yn y DU yn 2010 a gwyddom ei fod wedi ymledu i Gymru. Mae’r pathogen ymosodol sy’n debyg i ffwng yn effeithio’n bennaf ar gypreswydd Lawson sef, ynghyd â chypreswydd Leyland, y math mwyaf cyffredin o gonwydd sy'n tyfu mewn ardaloedd trefol mewn gwrychoedd neu fel coed unigol. Mae coed sydd wedi’u heintio fel arfer yn marw.

Tyllbryf Ynn Emrallt

Nid yw’r chwilen hon i'w gweld yn y DU ar hyn o bryd, ond mae'n lledaenu ar draws Gorllewin Rwsia ac mae wedi achosi i filiynau o goed ynn farw yng Ngogledd America. Gallai’r tyllbryf ynn emrallt gael effaith ddinistriol ar goed ynn Sir y Fflint, yn debyg i golli llwyfenni ar eu llawn-dwf drwy glefyd llwyfen yr Isalmaen. Mae’r bygythiad mor fawr, mae’r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyhoeddi cynllun wrth gefn i ymdrin ag unrhyw achosion, gyda'r gobaith o gael gwared â'r pla cyn iddo ymsefydlu.

Chwilen Hirgorn Asiaidd

Dyma chwilen egsotig *(Anoplophora glabripennis)* sy’n frodor yn Tsieina a phenrhyn Corea a fyddai’n fygythiad difrifol iawn i nifer o goed llydanddail pe bai’n cael ei chyflwyno drwy ddiofalwch i’r DU. Mae mesurau rheoli wedi’u rhoi ar waith ym mhorthladdoedd y DU i atal y chwilen rhag ymsefydlu a, hyd yma, mae unrhyw achosion wedi cael eu rheoli'n llwyddiannus gan swyddogion iechyd planhigion.

Malltod Nodwyddau Dothistroma

Mae’r clefyd sy’n cael ei achosi gan y ffwng *Dothistroma septosporum* yn achosi i goed brodorol ffynidwydd a choed pin eraill golli eu nodwyddau. Gall y clefyd ladd y coed ond mae’n amlach yn arafu twf sy'n effeithio ar faint o bren a gynhyrchir mewn planhigfeydd pîn masnachol. Mae arbenigwyr ar iechyd planhigion yn monitro lledaeniad ac effaith y clefyd. Nid ydym wedi'i ddarganfod yn Sir y Fflint ond mae wedi'i gadarnhau ar dir y Comisiwn Coedwigaeth yn Swydd Gaer.

Clefyd Massaria

Clefyd sy’n effeithio coed planwydd wedi’i achosi gan y ffwng *Splanchnonema platani* sy’n achosi briwiau marw ar ochr uchaf y canghennau sy’n gallu achosi iddynt dorri a disgyn. Mae’n bresennol yn Llundain ers o leiaf 2009 ond nid yw wedi’i ddarganfod yn Sir y Fflint.

Phytophthora ramorum

Mae’n bresennol yng Ngogledd Cymru a dyma’r rheswm dros dorri coed ar raddfa fawr mewn coetir llarwydd, ond nid yw wedi’i ddarganfod yn Sir y Fflint. Mae’r pathogen sy’n debyg i ffwng yn achosi i egin ar goed llarwydd wywo a marw, gan ladd y goeden gyfan, maes o law. Mae’r clefyd yn gallu lladd nifer o rywogaethau eraill o goed a llwyni.

Mae mwy o wybodaeth am y plâu a’r clefydon a’u statws ar hyn o bryd i’w gweld ar wefan y Comisiwn Coedwigaeth. Mae angen ystyried y plâu a’r clefydon hyn sy’n dod i’r amlwg ochr yn ochr â phlâu a chlefydon cyffredin eraill sy’n effeithio ar iechyd coed. Mae’r rhain yn cynnwys niwed gan famaliaid (e.e. gwiwerod llwyd) a ffwng sy’n pydru gwreiddiau (e.e. *Armillaria spp.* a *Meripilus giganteus*).

## Atodiad 4 - Protocol gorfodi cynllunio ar gyfer coed sydd â Gorchymyn Diogelu Coed neu gyfyngiadau ardal gadwraeth

Mae’r protocol gorfodi hwn wedi’i lunio i sicrhau bod ymchwiliadau i droseddau honedig dan Adrannau 201 a 211 yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn cael eu cynnal yn unol â’r gofynion o ran tystiolaeth sy'n angenrheidiol i lys troseddol.

1. Bydd swyddogion yn ymchwilio i droseddau honedig dan Adran 210 a 211 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 mewn modd teg, cyson ac atebol. Bydd ymchwiliadau i droseddau honedig yn cael eu blaenoriaethu yn ôl difrifoldeb y trosedd, yn enwedig yr effaith ar amwynder sy’n deillio o waith heb awdurdod ar goed, ac a fydd ymyrraeth ddi-oed gan swyddogion yn helpu i gyfyngu ar y trosedd a'r niwed a achosir.
2. Bydd gofyn i berson sy’n rhoi gwybod am drosedd honedig roi eu henw, eu cyfeiriad a’u rhif ffôn. Ni fydd ymchwiliad i gwynion dienw oni bai fod digon o fanylion wedi'u darparu i allu cynnal ymchwiliad effeithiol. Pe bai cred bod trosedd honedig wedi’i gyflawni a'i fod wedi arwain at niwed sylweddol i amwynder, efallai y bydd gofyn i'r sawl sy'n rhoi gwybod am y trosedd ddarparu datganiad ysgrifenedig fel tyst. Er mwyn bodloni gofynion tystiolaeth, bydd datganiad ysgrifenedig pob tyst yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol cyfredol a gallent gael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn achosion cyfreithiol os ceir caniatâd gan y tyst.
3. Bydd person sy’n rhoi gwybod am drosedd honedig yn cael gwybod yn gyson am ymchwiliad y Cyngor heb wneud drwg i’r ymchwiliad nac unrhyw achosion cyfreithiol yn y dyfodol, pe bai rhai.
4. Mae gan swyddogion y Cyngor sydd wedi'u hawdurdodi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol y grym i fynd ar dir er mwyn pennu a oes trosedd wedi'i gyflawni ar y tir[1] a byddant yn arfer y grym hwn os credir bod angen hynny er mwyn yr ymchwiliad. Os nad oes posib' mynd ar y tir oherwydd rhwystr, gallai swyddogion y Cyngor geisio cymorth gan yr heddlu.
5. Bydd ymweliadau â safle’n cael eu cynnal ar amser rhesymol a byddant yn cynnwys cofnodi manylion y trosedd honedig ac mae fel arfer angen llunio nodiadau ar y pryd, darlunio cynllun a thynnu ffotograffau. Lle bo hynny’n briodol er mwyn ymchwilio, efallai y bydd swyddogion yn cymryd samplau fel gwreiddiau sydd wedi'u torri i'w harchwilio[2]. Gall y perchennog/meddiannwr neu’r sawl sydd wedi’u awdurdodi ganddynt aros gyda swyddogion y Cyngor yn ystod yr ymweliad safle, ond rhaid iddynt beidio ag ymyrryd â’r ymchwiliad.
6. Wrth ymchwilio i droseddau honedig, bydd angen i swyddogion y Cyngor wneud pob ymholiad rhesymol. Gallai hyn gynnwys cwestiynu unrhyw berson sydd ar y tir sy’n ymddangos fel eu bod yn gyfrifol am neu’n gysylltiedig â’r trosedd honedig mewn unrhyw fodd, yn unol â gofynion cyfreithiol. Os nad yw perchennog neu feddiannwr y tir lle mae’r trosedd honedig wedi’i gyflawni yno, bydd swyddogion y Cyngor yn cysylltu â nhw cyn gynted â bo modd yn ystod yr ymchwiliad ac yn eu holi yn unol â gofynion cyfreithiol. Bydd cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd cwmni’n cael ei gyfrif yn gysylltiedig â throsedd honedig pan dybir bod un wedi'i chyflawni oherwydd eu gweithredoedd, diffygion neu esgeulustod nhw.
7. Bydd swyddogion y Cyngor yn ymgysylltu â phobl y tybir eu bod wedi cyflawni trosedd mewn modd adeiladol a rhesymol heb amharu ar yr ymchwiliad. Gan ei bod yn bosib i erlyniad troseddol ddeillio o ymchwiliad, er nad yw hyn byth yn cael ei bennu ymlaen llaw, bydd swyddogion yn rhoi sylw i ofynion cyfreithiol sef y cod ymddygiad sydd wedi'i gynnwys yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 ar adeg ysgrifennu'r protocol hwn. Felly, os oes sail resymol i amau bod person wedi achosi neu ganiatáu i drosedd gael ei chyflawni sydd wedi

[1] Adran 214B Deddf Cynllunio Glwad a Thref 1990

[2] Adran 214, Deddf Cynllunio Glwad a Thref 1990

arwain at niwed sylweddol i amwynder, byddant yn cael rhybudd yn unol â gofynion cyfreithiol perthnasol (fel Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol) cyn cael eu holi.

8. Dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, mae angen i berson y tybir eu bod wedi cyflawni trosedd roi eu henw, eu cyfeiriad a'u dyddiad geni. Cyn cael rhybudd gan swyddog y Cyngor neu unrhyw berson arall sydd wedi'i awdurdodi, bydd y person yn cael clywed y rheswm/rhesymau dros amau eu bod wedi cyflawni trosedd a byddant yn cael gwybod bod ganddynt hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol, nad ydynt yn cael eu harestio a bod rhwydd hynt iddynt adael ar unrhyw bryd.

9. Bydd cyfweliadau dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio nodiadau ar y pryd wedi'u hysgrifennu â llaw a phan fydd y cyfweliad ar ben, bydd gofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweld nodi'r dyddiad a llofnodi nodiadau cyfweld y swyddog. Bydd llungopi o'r nodiadau cyfweld ysgrifenedig yn cael eu darparu ar gais. Ni fydd cyfweliadau hirach yn cael eu cofnodi gan ddefnyddio nodiadau ysgrifenedig fel arfer. Byddant yn hytrach yn cael eu recordio â thap yn swyddfeydd y Cyngor yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol[3]. Nid oes unrhyw hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol am ddim dan y cynllun 'cyfreithiwr ar ddyletswydd' i rai sy'n cael eu cyfweld ar ôl derbyn rhybudd gan swyddogion y Cyngor.

10. Pwrpas y cyfweliad dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol yw sicrhau bod cofnod cywir o'r cwestiynau a ofynnir a'r ymatebion a geir yn cael ei gadw. Pan mae person yn cael ei gyfweld yn unol â gofynion Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, bydd y trosedd yn ddigon difrifol i fod angen ymchwiliad ffurfiol ond ni fydd erlyniad yn dod yn ei sgil yn awtomatig. Yn yr un modd, ni fydd penderfyniad ymlaen llaw o blaid erlyn yn cael ei wneud pan mae datganiad wedi'i dderbyn gan dyst.

11. Bydd casglu tystiolaeth, datganiadau a chyfweliadau dan rybudd cyfredol yn galluogi swyddogion y Cyngor i asesu amgylchiadau'r trosedd honedig a phenderfynu ar sail gwybodaeth a ddylid erlyn ai peidio. Wrth benderfynu, bydd y Cyngor yn asesu'r dystiolaeth yn ofalus i bennu a oes tebygolrwydd gwirioneddol o gael y person yn euog yn y llys. Os deuir i'r casgliad ei bod yn realistig credu y ceid y person yn euog, bydd y Cyngor wedyn yn ystyried a ddylid erlyn er budd y cyhoedd.

12. Wrth benderfynu a fyddai erlyniad o fudd i'r cyhoedd, bydd y Cyngor yn rhoi cryn bwyslais ar y niwed a achoswyd i amwynder o ganlyniad i'r trosedd honedig. Wrth ystyried y niwed i amwynder yr ardal, lle bo hynny'n berthnasol, ystyrir hefyd a ddilynwyd arferion da coedyddiaeth (neu arferion da tyfu coed) ac a ellir adfer y niwed yn y tymor byr gyda thyfiant newydd, neu waith tocio i unioni'r niwed y gallai'r perchennog fod yn fodlon ei wneud.

13. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd swyddogion y Cyngor yn defnyddio dulliau asesu gwerth coed neu asesu tirlun i asesu'r niwed i amwynder yn wrthrychol. Yn ychwanegol at hynny, bydd cofnodion ymchwiliadau, ffotograffau o safleoedd, ffotograffau o'r awyr a, lle bo modd, delweddau Google Streetview™ yn cael eu defnyddio.

14. Gallai'r Cyngor ystyried sancsiwn arall ar wahân i erlyniad gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, rybudd gan y Cyngor neu rybudd ysgrifenedig. Lle ceir bod sancsiwn arall yn briodol a phan mae'n cael ei ddefnyddio, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gyfeirio ato fel tystiolaeth pe bai unrhyw achosion cyfreithiol yn y dyfodol.

15. Mae erlyn am drosedd honedig dan Adran 210 neu 211 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn llyncu llawer o amser swyddogion. Felly, bydd swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau honedig yn

[3] Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 67(7B) COD E Cod Ymarfer Diwygiedig ar Recordio Sain Cyfweliadau gyda Rhai dan Amheuaeth (LlEM 2016)

cadw cofnodion o’r amser a dreuliwyd ar bob achos er mwyn gallu hawlio costau yn y llys ar ôl cael rhywun yn euog o drosedd.

16. Heb ystyried unrhyw erlyniad troseddol, am bob coeden sy'n cael ei thorri i lawr neu ei dinistrio fel arall yn groes i'r ddeddfwriaeth, mae dyletswydd ar berchennog y tir i ailblannu[4]. Bydd yr angen am ailblannu coed newydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw gollfarn troseddol. Os nad yw perchennog tir wedi cydymffurfio â’r ddyletswydd i ailblannu ac y credir ei bod yn addas mynnu bod coed newydd yn cael eu plannu, bydd y Cyngor yn cyflwyno Hysbysiad Plannu Coed Newydd. Os nad yw perchennog tir yn cydymffurfio â Hysbysiad Plannu Coed Newydd a bod yn dal angen darparu amwynder yn lle’r hyn a gollwyd, bydd y Cyngor yn plannu’r coed, fel mae’r ddeddfwriaeth yn ei ganiatáu.

[4] Adran 206, 207 a 213, Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990